# CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD BRO MORGANNWG 2021-2036

# CREU LLEOEDD IACH

# CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL DRAFFT

RLDP CDLN

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Cardiff and Vale University Health Board

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English**

# 1 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) hwn i gefnogi'r polisïau a'r cynigion a gynhwysir yng Nghynllun Datblygu Lleol Newydd Adneuo 2021-2036 (CDLIN) sy'n ceisio creu amgylcheddau iach a chynhwysol.

1.2 Mae Polis Strategol SP5 Creu Lleoedd Cynhwysol ac iach y CDLIN yn mynnu bod datblygiadau newydd yn sicrhau bod yr amgylchedd adeiledig yn gynhwysol i bawb ac yn creu amgylcheddau a all gyfrannu'n gadarnhaol at iechyd a lles.

1.3 Pwrpas y CCA hwn yw tynnu sylw at y cysylltiadau agos rhwng yr amgylchedd adeiledig ac iechyd a lles, ac mae'n dangos trwy ystyried cynhwysiant, iechyd a lles ar y cam datblygu cynharaf y gall datblygiadau newydd greu lleoedd a mannau iach a chynhwysol.

1.4 Yn hyn o beth, mae'r CCA:

- Yn tynnu sylw at y berthynas rhwng deddfwriaeth iechyd a pholisi cynllunio cenedlaethol a lleol, yn ogystal â'r cysylltiadau rhwng cynllunio a darparu iechyd a lles.
- Yn darparu canllawiau ymarferol y gall y rhai sy'n ymwneud â'r broses ddatblygu eu defnyddio i wella ansawdd bywyd pobl, trwy greu amgylcheddau cynhwysol ac iachach.
- Yn cyflwyno rhestr wirio iechyd a lles i gynorthwyo ymgeiswyr i ddangos sut mae eu cynigion yn cyfrannu at iechyd a lles, ac wrth baratoi Datganiadau Dylunio a Mynediad.
- Yn rhoi arweiniad i ymgeiswyr yn y defnydd o Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd ar gyfer datblygiadau penodol.

1.5 Mae'r Cyngor o'r farn y dylai pob datblygiad newydd geisio creu lleoedd sy'n cyfrannu at wella iechyd a lles. Mae'r CCA hwn yn nodi sut y bydd y Cyngor yn ystyried iechyd a lles drwy'r broses rheoli datblygu ac mae’n rhoi gwybodaeth am fesurau y gellir eu mabwysiadu gan ddatblygwyr i greu amgylcheddau cynhwysol ac iachach.

## 2 DIBEN Y CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL

2.1 Bwriad y CCA hwn yw cynorthwyo datblygwyr i fodloni dull rhagweithiol y Cyngor o greu lleoedd iach. Mae’r CCA hwn yn gosod y sail ar gyfer trafodaethau ar y cam cyn gwneud cais i sicrhau bod iechyd a lles yn ystyriaeth gynnar yn y broses gynllunio.

2.2 Mae'r cyngor a gynhwysir yn y CCA yn arbennig o berthnasol ar gyfer cynllunio a datblygu prosiectau adfywio mwy ac uwchgynlluniau. Mae'r CCA yn canolbwyntio ar y meysydd lle mae cynllunio yn dylanwadu ar ganlyniadau iechyd ac yn nodi meini prawf penodol y dylid eu hystyried yn y broses gynllunio.

## 3 STATWS Y CANLLAW

3.1 Cymeradwywyd y CCA gan y Cyngor fel drafft at ddibenion ymgynghori’n gyhoeddus ar 12 Ionwar 2026. Bydd y Cyngor yn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori o chwe wythnos cyn adrodd yn ôl ar y mater i'r Cabinet ei ystyried.

3.2 Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 12 Chwefror 2024 (PCC), bydd CCA yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau ac apeliadau cynllunio perthnasol ym Mro Morgannwg.

## 4 CREU LLEOEDD IACH: Y CYSYLLTIADAU RHWNG CYNLLUNIO AC IECHYD A LLES

4.1 Mae cysylltiadau hirsefydlog rhwng cynllunio ac iechyd. Mae manteision amgylchedd adeiledig a naturiol o ansawdd uchel ar les corfforol a meddyliol yn niferus. Mae mynediad i fannau agored gwyrdd, i fwyd iach, cyfleoedd i fod yn actif, i aer glân, i adeiladau sydd wedi'u cynllunio'n dda sy'n hyrwyddo iechyd a llesiant, ac i wasanaethau cymorth a ddarperir o gyfleusterau lleol i gyd yn helpu pobl i ffynnu mewn cymuned leol[1]. I'r gwrthwyneb, gall yr amgylchedd adeiledig gael effeithiau negyddol ar iechyd a lles, megis lle mae tai o ansawdd gwael neu lefelau llygredd aer yn cyfrannu at ganlyniadau iechyd andwyol.

4.2 Mae nod Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) o "Gymru Iachach" yn cydnabod y gall lle rydym yn byw ac yn gweithio siapio iechyd a lles unigolyn. Mae'n nodi Creu Lleoedd a mewn-ddylunio iechyd a lles cymunedol fel galluogwyr allweddol i gyflawni ei nod.

4.3 Mae gan bolisi cynllunio lleol rôl hanfodol i'w chwarae yn sicrhau bod cyfleoedd ar gael i bobl allu gwneud penderfyniadau bywyd mwy iach ac i fyw mewn llefydd sydd o fudd i'w hiechyd ac sydd ddim yn peri niwed, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Er enghraifft, gall lleoedd sy'n darparu mynediad at fannau gwyrdd diogel a chyfleus helpu i annog gweithgarwch corfforol a rhyngweithio cymdeithasol. I'r gwrthwyneb, gall datblygiadau wedi'u cynllunio a'u cysylltu'n wael gyfrannu tuag at ynysu cymdeithasol ac iechyd corfforol a meddyliol tlotach[2].

4.4 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf datblygwyd llawer o ymchwil a chanllawiau ynghylch cynllunio gofodol a chreu lleoedd iach, gan ystyried sut mae'r amgylchedd adeiledig a naturiol yn dylanwadu ar iechyd a lles.

4.5 O ganlyniad i well darpariaeth gofal iechyd, mae pobl yn gyffredinol yn byw'n hirach. Mae llawer o bobl hŷn yn byw bywydau iach, ond mae rhai yn byw yn hirach gydag anableddau neu glefydau anhrosglwyddadwy. Cysylltir llawer o'r clefydau gydag ymddygiadau ffordd o fyw y gellir eu hosgoi, fel ysmygu, yfed gormod o alcohol, gweithgarwch corfforol cyfyngedig a diet gwael. Ceir

---

[1] Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2018. Creu Lleoedd a Mannau Iachach ar gyfer y Genhedlaeth Bresennol a Chenedlaethau'r Dyfodol. Ar gael yn: https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2020/07/Creating-healthier-spaces-places-Cymru.pdf

[2] Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ofal a Rhagoriaeth (NICE) Mawrth 2018. Gweithgarwch Corfforol a'r Amgylchedd. Ar gael yn: https://www.nice.org.uk/guidance/ng90/resources/physical-activity-and-the-environment-pdf-1837748441797

bellach fwy o ddealltwriaeth o'r cysylltiadau agos rhwng iechyd corfforol a meddyliol, ac amlder problemau iechyd meddwl yn y boblogaeth. Gall yr holl feysydd iechyd hyn gael eu dylanwadu'n gryf gan yr amgylchedd adeiledig a naturiol.

4.6 Ym Mro Morgannwg, mae anghydraddoldebau iechyd o ran disgwyliad oes ac o ran disgwyliad oes iach adeg geni yn amlwg rhwng ardaloedd o amddifadedd uchel ac ardaloedd mwy cyfoethog. Yn 2020-22[3], y bwlch disgwyliad oes rhwng y cymunedau â'r amddifadedd mwyaf a'r cymunedau â'r amddifadedd lleiaf oedd 8.4 mlynedd i ddynion, a 7.24 mlynedd i fenywod (Ffigwr Cymru oedd 7.6 mlynedd a 6.4 mlynedd yn y drefn honno). Roedd y bwlch hwn hyd yn oed yn fwy ar gyfer disgwyliad oes iach adeg geni, gyda gwahaniaeth o 17.9 mlynedd i ddynion a 19.3 mlynedd i fenywod. Mae hyn yn golygu bod pobl sy'n byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn marw'n gynt a byddant yn profi iechyd gwael am gyfnod hirach.

4.7 O ganlyniad, bydd annog Creu Lleoedd Iach drwy gynllunio defnydd tir a gweithio ar y cyd yn cyfrannu at wella lles corfforol a meddyliol trigolion Bro Morgannwg. Bydd hefyd yn helpu i gyflawni nifer o amcanion a blaenoriaethau lleol o fewn y cyd-destun ehangach, gan gynnwys; gwella diogelwch ar y ffyrdd, lleihau llygredd aer, gwneud y mwyaf o ddiogelu'r amgylchedd, a sicrhau buddsoddiad mewn seilwaith.

# 5 CYD-DESTUN POLISI CYNLLUNIO AC IECHYD Y CYHOEDD

## CYD-DESTUN POLISI IECHYD CYHOEDDUS CENEDLAETHOL

5.1 Mae polisïau Cymru a'r fframwaith deddfwriaethol yn rhoi ffocws allweddol ar y cysylltiadau pwysig rhwng yr amgylchedd naturiol ac adeiledig ac iechyd a lles.

## DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

5.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a gyda'i gilydd, ac atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. Mae'r Ddeddf yn datgan bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus weithredu mewn


[3] Iechyd Cyhoeddus Cymru. Fframwaith Canlyniadau. Ar gael yn: Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd (2022) - Iechyd Cyhoeddus Cymru

modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y genhedlaeth bresennol yn cael eu bodloni heb gyfaddawdu gallu genedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain.

5.3 Mae gan awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru ddyletswyddau a phwerau penodol i wella llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd, fel y nodir yn y ddeddfwriaeth hon a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar bob corff cyhoeddus i weithio tuag at gyflawni egwyddorion y Ddeddf wrth gyflawni eu dyletswyddau, gan gynnwys awdurdodau cynllunio lleol wrth asesu ceisiadau cynllunio.

5.4 Er mwyn sicrhau bod y cyrff hyn yn gweithio tuag at yr egwyddor hon mae'r Ddeddf yn gosod saith nod llesiant er mwyn helpu i sicrhau bod pob corff cyhoeddus yn gweithio tuag at yr un weledigaeth o Gymru gynaliadwy fel y dangosir yn ffigwr 1 isod. Mae'r rhain yn cynnwys "Cymru iachach" ac yn cysylltu â rhan yr amgylchedd wrth hyrwyddo llesiant y cyfeirir atot yn y Nodau sy'n ymwneud â "Chymru ffyniannus", 'Cymru gydnerth', 'Cymru o gymunedau cysylltiedig' a 'Gymru gyfrifol yn fyd-eang'.

Ffigur 1: Nodau Llesiant



5.5 Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i gynllunio llwybrau addas ar gyfer teithio llesol, llunio mapiau teithio llesol, ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr a gwella llwybrau a chyfleusterau teithio llesol. Rhaid i awdurdodau lleol wella'r seilwaith cerdded a beicio lleol a hyrwyddo cerdded a beicio fel dull trafnidiaeth. Mae teithio llesol yn cyfeirio'n arbennig at deithiau a wneir drwy gerdded a beicio, megis y rhai a wneir i weithle neu sefydliad addysgol neu oddi yno, neu i gael mynediad at wasanaethau neu gyfleusterau iechyd, hamdden neu eraill. Dylai datblygiadau newydd ystyried teithio llesol a chynnwys darparu llwybrau cerdded a beicio newydd a gwell lle bo hynny'n briodol.

## DEDDF IECHYD Y CYHOEDD (CYMRU) 2017

5.6 Mae Rhan 6 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnal Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd (AEIau) mewn amgylchiadau penodol. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd y rheoliadau’n nodi'r amgylchiadau y mae'n rhaid i gorff cyhoeddus gyflawni AEI; a'r ffordd y mae’n rhaid cynnal AEI.

5.7 Pan fo corff cyhoeddus wedi cynnal AEI yn unol â’r rheoliadau, rhaid iddo gyhoeddi'r asesiad, ac ystyried yr asesiad wrth arfer y swyddogaethau hynny y cynhaliwyd yr asesiad ar eu cyfer. Mae rhagor o wybodaeth a chanllawiau ar pryd a sut i ymgymryd ag AEI ar gael gan Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru: https://icccgsib.co.uk/whiasu/adnoddau/

5.8 Mae Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 12, yn cydnabod bod AEI yn gwneud cyfraniad gwerthfawr tuag at lunio cynlluniau. Gall cynnal AEI sicrhau bod effeithiau cadarnhaol ac anfwriadol negyddol posibl datblygiadau ar iechyd ac anghydraddoldebau iechyd yn cael eu hystyried a'u hateb yn ystod y broses gynllunio. Yn unol â hynny, pan fo angen AEI ar gyfer datblygiadau penodol, dylid gwneud hyn yn gynnar yn y broses ddatblygu fel bod unrhyw effeithiau iechyd perthnasol yn cael eu nodi a'u datrys trwy gamau cynllunio a dylunio.

5.9 Pan fo AEI wedi'i gynnal ynghlwm â chynnig datblygu, dylid cyflwyno hwn yn y cam gwneud cais a dangos sut mae'r AEI wedi llywio dyluniad y cynllun. Dylai'r AEI anelu at wella agweddau iechyd cadarnhaol y cynnig wrth osgoi neu leihau unrhyw effeithiau negyddol anfwriadol posibl. Dylid rhoi pwyslais ar liniaru effeithiau negyddol neu wella effeithiau cadarnhaol ar grwpiau poblogaeth a nodwyd drwy'r broses AEI, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd.

## PWYSAU IACH, CYMRU IACH 2020

5.10 Mae Pwysau Iach, Cymru Iach yn strategaeth i atal a lleihau gordewdra yng Nghymru. Mae bod â phwysau iach yn allweddol i leihau risgiau cyflyrau iechyd hirdymor fel diabetes, clefyd y galon a rhai canserau. Mae atal gordewdra yn gymhleth ac yn gofyn i lawer o ffactorau gyfrannu ar lefel unigolyn, cymuned a chymdeithas. Un o'r mecanweithiau i alluogi pobl i gyflawni a chynnal pwysau iach yw eu gallu i fyw mewn amgylchedd iach, lle mae ganddynt fynediad at fannau agored, bwyd iach, a'r seilwaith i alluogi teithio llesol.

5.11 Mae'r Strategaeth yn nodi'r uchelgeisiau hyn:

- I sicrhau amgylchedd bwyd iachach, lle mae opsiynau iachach ar gael ar ein strydoedd mawr, ac mae cyfle i bobl dyfu eu bwyd eu hunain.
- I wella gallu pobl i allu ymgymryd â chyfleoedd teithio llesol.
- I gael cymunedau mwy diogel, gyda llwybrau mwy diogel i ysgolion, mwy o barthau 20mya a mynediad mwy diogel i alluogi cerdded a beicio.
- I alluogi gwell mynediad at fannau gwyrdd.
- I gynyddu buddsoddiad mewn cyfleusterau chwarae a chwaraeon a sicrhau bod gweithgarwch corfforol yn cael ei gynnwys yn rheolaidd mewn penderfyniadau seilwaith fel ysgolion, tai ac adfywio.

## CYD-DESTUN CYNLLUNIO CENEDLAETHOL

5.12 Cyflwynodd **Deddf Cynllunio (Cymru) 2015** ofyniad statudol i bob Awdurdod Cynllunio Lleol arfer eu dyletswyddau cynllunio yn unol â'r egwyddorion cynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (DLlCD).

5.13 Mae **Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040** yn nodi fframwaith datblygu cenedlaethol strategol Llywodraeth Cymru ac mae'n adeiladu ar amcanion allweddol Polisi Cynllunio Cymru. Mae'n amlinellu strategaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio. Mae'r rhain yn cynnwys cynnal a datblygu economi fywiog, darparu datblygiadau o ansawdd yn y lleoedd cywir am y rhesymau cywir, a gwella iechyd a lles cymunedau ledled Cymru.

5.14 Mae **Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Rhifyn 12 (Chwefror 2024)** yn nodi nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer y system cynllunio defnydd tir yng Nghymru ar draws ystod o bynciau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd; gan nodi bod y system gynllunio yn ganolog i gyflawni nodau datblygu cynaliadwy DLICD.

5.15 Mae PCC o'r farn mai'r ffordd orau o weithredu gofynion DLICD yw trwy fabwysiadu ymagwedd 'creu lleoedd' tuag at lunio cynlluniau, polisi cynllunio a gwneud penderfyniadau ar lefel leol a chenedlaethol. Diffinnir creu lleoedd gan PCC fel:

> "*Ffordd holistig o fynd ati i gynllunio a dylunio datblygiadau a lleoedd yw 'creu lleoedd', sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau positif. Mae'n tynnu ar botensial ardal i greu datblygiadau a lleoedd cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl yn eu hystyr ehangaf*." (Cyfeiriad ar dudalen 14)

5.16 Mae pum egwyddor gynllunio cenedlaethol allweddol yn sail i gyflawni creu lleoedd y mae'n rhaid i gynlluniau datblygu a chynigion datblygu eu ceisio i gyflawni datblygiad er mwyn cyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy cenedlaethol:

- Tyfu Ein Heconomi mewn Modd Cynaliadwy.
- Gwneud y Defnydd Gorau o Adnoddau.
- Hwyluso Amgylcheddau Hygyrch ac Iach.
- Creu a Chynnal Cymunedau.
- Gwarchod yr Amgylchedd i'r Eithaf a Chyfyngu'r Effaith ar yr Amgylchedd.

5.17 Mae Hwyluso Amgylcheddau Hygyrch ac Iach yn tynnu sylw at y rôl y gall y system gynllunio ei chael wrth hyrwyddo iechyd a lles:

> *"Dylai'r ffordd y dewiswn ddefnyddio'n tir a'r lleoedd a grëwn fod yn hygyrch i bawb a chefnogi bywydau iach. Mae lleoedd o ansawdd uchel yn agored ac yn gynhwysol i bob aelod o gymdeithas. Maent yn sicrhau bod pawb yn cael byw, gweithio, teithio a chwarae mewn ffordd sy'n cefnogi iechyd corfforol a meddyliol da. Dylid cynllunio'n hamgylcheddau adeiledig a naturiol i hyrwyddo'n llesiant meddyliol a chorfforol. Y ffordd orau o wneud hynny yw trwy sicrhau cyfranogaeth a chydweithrediad pobl eraill i sicrhau bod problemau'n cael eu deall a'u rhwystro cyn gynted â phosib trwy eu rheoli'n effeithiol gyda'r rheini y bydd y datblygiad dan sylw yn effeithio arnynt neu sydd â budd ynddo."* (Tudalen 17)

5.18 Mae paragraffau 3.19 i 3.24 Hyrwyddo Lleoedd Iachach yn PCC yn nodi sut y gall ACLlau drwy eu swyddogaethau blaengynllunio a rheoli datblygu helpu i wneud y mwyaf o iechyd a llesiant. Mae hyn yn cynnwys cynnal a chreu lleoedd sy'n annog ffyrdd iach o fyw, sicrhau mynediad i fannau gwyrdd a chyfleusterau cymunedol, a hyrwyddo cerdded a beicio. Mae hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod y broses gynllunio yn lleihau'r effeithiau negyddol posibl y gall datblygiadau newydd eu cael ar iechyd corfforol a meddyliol, trwy ddiogelu amwynder a thrwy leihau amlygiad i sŵn a llygredd aer. Mae paragraff 3.21 yn nodi y dylai ACLlau wrthod cynigion datblygu os yw'r effeithiau ar iechyd neu amwynder yn andwyol neu na ellir eu lliniaru'n foddhaol.

## POLISI CYNLLUNIO LLEOL A CHYD-DESTUN IECHYD

### Cynllun Corfforaethol Bro Morgannwg 2025-2030 (Bro 2030)

5.19 Cynllun Corfforaethol Bro Morgannwg yw dogfen strategol allweddol y Cyngor ac mae'n nodi'r fframwaith ar gyfer y gwahanol weithgareddau y mae'r Cyngor yn ymgymryd â nhw. Mae'n ceisio cyflawni ystod eang o ganlyniadau a fesurir yn erbyn 4 amcan lles y cynllun:

- Creu lleoedd gwych i fyw, gweithio ac ymweld.
- Parchu a dathlu’r amgylchedd.
- Rhoi dechrau da mewn bywyd i bawb.
- Cefnogi ac amddiffyn y rhai sydd ein hangen.

5.20 Ar gyfer pob amcan, mae'r cynllun yn nodi sut y bydd y Cyngor yn cydweithio â'r gymuned a phartneriaid i gyflawni'r amcanion dros gyfnod 5 mlynedd y Cynllun Corfforaethol, ac o fewn pob un mae gwella iechyd a llesiant trigolion y Fro yn thema a welir dro ar ôl tro. Mae hyn yn cynnwys gwella mynediad at wasanaethau iechyd, lleihau lefelau gordewdra plant, gwella mynediad at fwyd iach a lleihau ansicrwydd bwyd, a chefnogi preswylwyr i fyw bywydau iachach.

### Cynllun Llesiant Bro Morgannwg 2023-28

5.21 Fel rhan o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r Cyngor, ynghyd â phartneriaid sector cyhoeddus fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Bro Morgannwg, wedi paratoi ei ail Gynllun Llesiant ar gyfer y Fro. Wedi’i lywio gan Asesiad Llesiant, mae'r Cynllun Llesiant yn cwmpasu'r 7 nod llesiant ac yn rhoi fframwaith i bob corff sector cyhoeddus gyflawni'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy drwy fabwysiadu'r 5 ffordd o weithio.

5.22 Mae'r Cynllun Llesiant newydd yn nodi tri Amcan Llesiant newydd a'r meysydd blaenoriaeth y bydd y BGC yn canolbwyntio arnynt, ac mae’r amcanion yn adlewyrchu'r materion allweddol a'r heriau allweddol a nodwyd yn Asesiad Llesiant Bro Morgannwg:

- **Bro fwy gwydn a gwyrdd** – drwy ddeall a gwneud y newidiadau sy'n angenrheidiol fel unigolion, cymunedau a sefydliadau mewn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur.
- **Bro fwy actif ac iach** – drwy annog a galluogi pobl o bob oed i fod yn fwy actif a hyrwyddo manteision cofleidio ffordd o fyw iachach.
- **Bro decach a mwy cysylltiedig** – drwy fynd i'r afael â'r annhegwch sy'n bodoli ledled y Fro, ymgysylltu â'n cymunedau a darparu gwell cyfleoedd a chefnogaeth i wneud gwahaniaeth parhaol.

5.23 Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, mae'r Cynllun Llesiant wedi nodi 3 ffrwd waith â blaenoriaeth lle canolbwyntir ar gydweithio:

- **Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur** – Mae'r Asesiad Llesiant yn nodi rhai o'r themâu allweddol i'r Fro o ran yr argyfyngau hinsawdd a natur, ac mae partneriaid yn cydnabod mai'r ffordd orau o gyflawni'r newidiadau sydd eu hangen ar draws ein sefydliadau a'n cymunedau yw trwy gydweithio. Bydd hyn yn cynnwys ystyried trafnidiaeth, ynni, bwyd, bioamrywiaeth a sut rydym yn defnyddio ein hadeiladau a'n tir.

- **Gweithio gyda'r bobl sy'n byw yn ein cymunedau sy'n profi'r lefelau amddifadedd uchaf** – Mae'r Asesiad Llesiant wedi amlygu'r gwahaniaethau ar draws y Fro a sut mae'r anghydraddoldebau hyn wedi’u gwaethygu yn sgil pandemig Covid-19. Bydd y Cynllun Llesiant yn canolbwyntio'n benodol ar yr ardaloedd hynny ym Mro Morgannwg y nodwyd eu bod yn fwy difreintiedig gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y cymunedau hyn.

- **Dod yn Fro sy'n Dda i Bobl Hŷn** – Rhagwelir y bydd cyfran poblogaeth y Fro rhwng 65-84 oed yn cynyddu. Bydd y Cynllun Llesiant yn ceisio sicrhau bod y Fro yn well i bobl hŷn ac yn lle gwell i bobl heneiddio, gan ei gwneud yn lle mwy cyfeillgar i bawb a chydnabod y cyfraniad a wneir gan bobl hŷn.

5.24 Mae **Fframwaith Bwyd a Symud Da (2024-30)** ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg yn dwyn ynghyd bartneriaid o'r BGCau a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ddarparu ymateb rhanbarthol i sut y gallwn annog pobl i fod yn fwy actif a chael diet iachach. Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar weithredu ar y cyd i greu newid ystyrlon mewn cymunedau, ysgolion, gweithleoedd a'r amgylchedd dros y chwe blynedd nesaf

5.25 Mae **Cynllun Datblygu Lleol Newydd Bro Morgannwg (2021-2036) Cynllun Datblygu Lleol (CDLIN) 2011-2026** yn nodi fframwaith polisi cynllunio'r Cyngor ar gyfer rheoli defnydd a datblygu tir o fewn yr awdurdod. Mae iechyd a lles trigolion yn thema allweddol i'r CDLIN ac fe'i hadlewyrchir yn y weledigaeth gyffredinol ar gyfer Bro Morgannwg:

> *…"Mae Bro Morgannwg yn lle iach a chynhwysol i bawb, gyda mynediad teg at wasanaethau a chyfleusterau, yn gorfforol a digidol. Mae'r trigolion yn falch o lle maen nhw'n byw a gallant gael y cartrefi sydd eu hangen arnynt. Mae twf tai wedi darparu cartrefi sy'n darparu ar gyfer pawb, gan gynnwys cartrefi fforddiadwy a thai pobl hŷn; gan gyfrannu tuag at gymunedau amrywiol a chydlynus lle gall trigolion gynnal eu hannibyniaeth.*
>
> *Drwy greu lleoedd, mae mannau a gofodau yn ddiogel, yn hygyrch ac yn gymdeithasol gynhwysol. Mae datblygiadau yn parchu cymeriad lleol ac mae'r ymdeimlad o le yn cael ei werthfawrogi gan drigolion ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at iechyd a llesiant.*

5.26 Mae **Amcan Strategol 2 Gwella Iechyd a Lles Meddyliol a Chorfforol** y CDLIN yn tynnu sylw at y cysylltiad rhwng iechyd a lles, trwy sicrhau bod yr amgylchedd adeiledig yn gynhwysol ac yn hygyrch, yn hwyluso mynediad i natur ac yn galluogi ffyrdd o fyw llesol.

5.27 Mae'r allwedd i ddarparu manteision iechyd cadarnhaol drwy'r CDLIN wedi'i gynnwys ym **Mholisi Strategol SP5 Creu Lleoedd a Gofodau Iach a Chynhwysol,** sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd nodi a deall y goblygiadau iechyd sy'n gysylltiedig â'r datblygiad a gynigiwyd o'r cychwyn cyntaf, gan ddylunio datblygiadau a all gyfrannu at iechyd a hefyd osgoi creu amgylcheddau a all effeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol yn negyddol ar les corfforol a meddyliol:

**SP5 - CREU LLEOEDD A GOFODAU IACH A CHYNHWYSOL**

Dylai pob datblygiad geisio creu lleoedd iach a chynhwysol sy'n lleihau anghydraddoldebau iechyd a gwella cydlyniant cymdeithasol. Cyflawnir hyn drwy’r canlynol:

- Sicrhau bod cynigion datblygu wedi'u dylunio i hwyluso amgylcheddau iach hygyrch i fynd i'r afael â phenderfynyddion iechyd perthnasol yn gadarnhaol, yn enwedig mewn ymateb i anghenion iechyd lleol;
- Sicrhau bod pob man a datblygiad mor gynhwysol â phosibl, yn gallu addasu i amrywiaeth eang o anghenion sy'n newid a darparu ansawdd bywyd uchel;
- Galluogi cyfleoedd ar gyfer mynediad at amgylchedd bwyd iach;
- Cefnogi'r ddarpariaeth o gyfleusterau cymunedol a gofal iechyd newydd a gwell;
- Gwarchod a gwella iechyd a lles presennol y cyhoedd.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n ofynnol i ddatblygwyr gynnal asesiad sgrinio o'u cynnig yn y cam cyn ymgeisio i nodi effeithiau iechyd posibl eu datblygiad fel y nodir isod:

| **Math o Ddatblygiad** | **Datblygiadau Mawr - Rhestr Wirio Creu Lleoedd Iach** | **Datblygiadau Sylweddol - AEI Cyflym** |
|---|---|---|
| Preswyl | Rhwng 10 a 99 o anheddau neu arwynebedd o 0.5 hectar i 2 hectar | 100 neu fwy o Anheddau neu fwy na 2 hectar |
| Cyflogaeth/Masnachol Arall/Hamdden | Arwynebedd Llawr Adeiledig o 1,000m2 i 4,000m2 | Arwynebedd Llawr Adeiledig mwy na 4,000m2 |

5.28 Ar gyfer y CDLIN, lleoedd a gofodau iach yw'r rhai sy'n ymgorffori safon uchel o ddylunio sy'n ymateb i anghenion iechyd a lles yr holl ddefnyddwyr a'r

egwyddorion creu lleoedd; hwyluso lefelau uchel o hygyrchedd amlfodd ar gyfer pob taith i wasanaethau a chyfleusterau angenrheidiol; darparu seilwaith teithio llesol o safon a mannau agored, gan gynnwys cyfleusterau chwaraeon; darparu seilwaith gwyrdd a mannau ar gyfer cymdeithasu, gan gynnwys mannau ar gyfer tyfu bwyd; ac adeiladau tai priodol o ansawdd uchel. Bydd sicrhau'r rhain yn gwarantu bod penderfynyddion iechyd yr effeithir arnynt gan gynllunio yn cael eu hystyried yn gadarnhaol.

5.29 Lleoedd cynhwysol yw'r rhai sy'n darparu mynediad a chyfleoedd cyfartal, gan alluogi pawb i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas a galluogi pobl i aros yn eu cartrefi a'u cymunedau wrth i'w hanghenion newid. Gall addasiadau cymharol fach gael effaith sylweddol ar allu pobl i fwynhau eu hardal leol, megis ymgorffori goleuadau priodol i leihau ofnau am droseddu, neu ddarparu lleoedd i bobl orffwys a chymdeithasu. Gall dylunio gofalus sicrhau bod lleoedd yn groesawgar i bob cenhedlaeth, gan ddileu rhwystrau sy'n atal pobl rhag diwallu eu hanghenion neu fwynhau bywydau actif.

5.30 Yn ogystal â Pholisi SP5, mae ystyriaeth iechyd a lles sydd wedi'u cynnwys yn y CDLIN yn cynnwys nifer o bolisïau strategol ychwanegol sy'n cwmpasu ystod o faterion lle mae'r cysylltiadau ag iechyd a lles yn elfen allweddol:

- Nod **Polisi Strategol SP4 Creu Lleoedd** yw ceisio sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu cynllunio gyda chynlluniau sy'n creu ymdeimlad o le ac yn sicrhau amgylchedd iach a diogel i helpu i fynd i'r afael â phroblemau iechyd sy'n gysylltiedig â diffyg gweithgaredd corfforol ac allgáu cymdeithasol sy'n deillio o ddibyniaeth ar geir, mynediad gwael at wasanaethau a chyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus.
- Mae **Polisi SP10 Trafnidiaeth Gynaliadwy** yn mynnu bod datblygiadau newydd yn cyfrannu at greu rhwydwaith drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy, diogel, integredig a chysylltiedig da, gyda theithio llesol fel yr ystyriaeth gyntaf wrth ddylunio datblygiadau newydd fel bod blaenoriaeth yn cael ei roi i gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus uwchlaw ceir preifat.
- Nod **Polisi SP7 Tai Fforddiadwy** yw ceisio sicrhau bod datblygiadau preswyl newydd yn cyfrannu tuag at ddiwallu anghenion y gymuned leol ac yn cyfrannu tuag at greu cymunedau cydlynol cymdeithasol trwy ddarparu tai fforddiadwy a thai i bobl hŷn a thai anghenion arbenigol.
- Nod **Polisi SP13 Seilwaith Cymunedol a Rhwymedigaethau Cynllunio** yw ceisio sicrhau bod pob datblygiad newydd ym Mro Morgannwg yn cael eu cefnogi gan wasanaethau a chyfleusterau priodol i fodloni eu hanghenion ac anghenion y gymuned bresennol, er mwyn creu cymunedau diogel, cynaliadwy, iach a chymysg y gellir byw ynddynt.

- Mae **Polisi SP19 Seilwaith Gwyrdd** yn gofyn bod datblygiadau newydd yn integreiddio seilwaith gwyrdd a glas o fewn y cynllun a'r dyluniad, gan ddarparu cyfleoedd gofod amlswyddogaethol sy'n cynnig cyfleoedd i hamddena ac ymlacio; hyrwyddo iechyd a lles corfforol a meddyliol; hwyluso cyfleoedd dysgu.

5.31 Mae gweddill y CCA hwn yn nodi canllawiau ar y berthynas rhwng yr amgylchedd adeiledig ac iechyd a lles wrth fodloni'r gofynion a nodir yn y polisïau uchod ac yn darparu mesurau ymarferol y gellir eu mabwysiadu i greu lleoedd sy'n iach ac yn gynhwysol.

## 6 CREU LLEOEDD IACH – SUT A PHRYD I YSTYRIED IECHYD A LLESIANT O FEWN DATBLYGIADAU NEWYDD

6.1 Mae gan ddatblygiadau newydd y potensial i effeithio ar ystod eang o faterion a all effeithio ar iechyd a lles y boblogaeth. Mae tystiolaeth gref sy'n cysylltu canlyniadau iechyd a lles ag ansawdd yr amgylcheddau adeiledig a naturiol, y gall y system gynllunio gael dylanwad mawr arnynt[4]. Gall dyluniad cymdogaethau ddylanwadu ar lefelau gweithgarwch corfforol, cyfleoedd teithio, cysylltiadau cymdeithasol, ac effeithio ar les corfforol a meddyliol. Isod mae

[4] Cymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref. Tachwedd 2016 Cynllunio ar gyfer Iechyd a Llesiant Gwell yng Nghymru. Ar gael: https://tcpa.org.uk/wp-content/uploads/2021/11/FINAL__HWBW_Briefing.pdf

crynodeb o rai o'r dylanwadau y gall cynllunio a dylunio eu cael dros iechyd a llesiant[5, 6, 7, 8, 9, 10]

| | |
|---|---|
| Tai | Amcangyfrifir bod cost tai o ansawdd gwael i'r GIG yng Nghymru oddeutu £95 miliwn y flwyddyn, ac yn costio £1 biliwn i gymdeithas (trallod, economi, lles, cyllid). Mae tai fforddiadwy, cynnes, o ansawdd da yn gysylltiedig â nifer o ganlyniadau iechyd a llesiant cadarnhaol..<br><br>Mae tai yn effeithio ar les corfforol, emosiynol a chymdeithasol. Mae pobl sy'n byw mewn cartrefi oer, llaith ac anniogel mewn mwy o berygl o ganserau, salwch anadlol, salwch cylchrediad a chardiofasgwlaidd. Mae pobl hŷn mewn perygl mwy o gwympo gan arwain at anaf difrifol. |
| Yr Amgylchedd Adeiledig | Mae dylunio cymdogaethau, a'r amgylchedd adeiledig yn gyffredinol, yn cyfrannu at iechyd a lles ac yn chwarae rhan sylweddol wrth siapio ymddygiadau iechyd. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cymdogaethau cerddedadwy yn annog teithio llesol ac felly'n cynyddu lefelau gweithgarwch corfforol, ac yn gwella iechyd.<br><br>Mae gwell cysylltedd strydoedd trwy seilwaith cerdded a beicio, dwyseddau uwch a mynediad at systemau trafnidiaeth gyhoeddus yn helpu i ddarparu llwybrau amgen ar gyfer teithio llesol. Gall defnydd tir cymysg, a darparu cyfleusterau lleol wella symudedd ac ymgysylltiad |

[5] Iechyd Cyhoeddus Lloegr, 2017, Cynllunio Gofodol ar gyfer Iechyd. Spatial Planning for Health: an evidence resource for planning and designing healthier places (publishing.service.gov.uk)

[6] Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2019, Gwneud Gwahaniaeth Tai ac Iechyd: Achos dros Fuddsoddi. https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2020/07/ICC-Gwneud-Gwahaniaeth-Tai-ac-Iechyd-Yr-Achos-dros-Fuddsoddi.pdf

[7] Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021, Cynllunio a Galluogi Amgylcheddau Iach. https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2021/07/Planning-and-Enabling-Main-Resource_Wel-v8_FINAL-16-June-21.pdf

[8] Carly J. Wood, Jules Pretty, Murray Griffin, A case–control study of the health and well-being benefits of allotment gardening, JOURNAL OF PUBLIC HEALTH, Cyfrol 38, rhifyn 3, 17 Medi 2016, Tudalennau e336–e344, https://doi.org/10.1093/pubmed/fdv146

[9] Jabbar M, Yusoff MM, Shafie A. Assessing the role of urban green spaces for human well-being: a systematic review. GeoJournal. 2022; 87(5):4405-4423. doi: 10.1007 / s10708-021-10474-7. Epub 2021 Gorff 20. PMID: 34305268; PMCID: PMC8290137. Assessing the role of urban green spaces for human well-being: a systematic review - PMC (nih.gov)

[10] Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2018, Creu lleoedd a mannau iachach ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Chttps://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2020/07/Creating-healthier-spaces-places-Cymru.pdf

| | |
|---|---|
| | cymdeithasol ymhlith oedolion hŷn, a chynyddu gweithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc. |
| Amgylchedd Bwyd | Mae'r amgylchedd bwyd yn chwarae rhan hanfodol mewn iechyd a llesiant ond mae'n rhan o system gymhleth sy'n cynnwys agosrwydd at siopau manwerthu bwyd a'r math o fwyd sydd ar gael.<br><br>Mae gan dyfu mwy o fwyd yn lleol fanteision lluosog, gan gynnwys lleihau effaith milltiroedd bwyd ar yr hinsawdd, galluogi mynediad at fwyd ffres ac iach, a darparu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau awyr agored iach. Gall llai na 30 munud o arddio rhandir arwain at welliannau mewn hunan-barch a hwyliau trwy leihau tensiwn ac iselder. |
| Yr Amgylchedd Naturiol | Mae mannau gwyrdd yn cynnig nifer o fanteision ar gyfer iechyd a lles, ac mae hygyrchedd mannau gwyrdd yn dylanwadu nid yn unig ar y tebygolrwydd o weithgarwch corfforol ond hefyd ar ei amlder. Mae lefelau uwch o weithgarwch corfforol yn lleihau'r risg o ddatblygu cyflyrau fel clefyd coronaidd y galon, diabetes math 2, gordewdra a rhai cyflyrau iechyd meddwl.<br><br>Mewn ardaloedd trefol, mae mannau gwyrdd yn arbennig o bwysig i iechyd a lles, mae astudiaethau yn dangos bod hyd yn oed ymweliad wythnosol â man gwyrdd yn cael effeithiau cadarnhaol ar y corff dynol, ac mae mynediad yn cynyddu teithio llesol.<br><br>Mae mannau gwyrdd trefol yn lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd, trwy leihau gwres, gwella ansawdd aer, a gwella bioamrywiaeth, sydd i gyd yn effeithio ar iechyd pobl. |
| Trafnidiaeth a Theithio Llesol | Gall teithio llesol (beicio, cerdded a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus) gynyddu gweithgarwch corfforol, ac mae gostyngiad mewn trafnidiaeth modur yn cyfrannu at well ansawdd aer.<br><br>Gall byw mewn cymdogaeth sy'n cymell gweithgarwch ddarparu rhwng 32% a 59% o'r lefelau gweithgarwch corfforol wythnosol a argymhellir i oedolion allu cynnal iechyd da. O'i gymharu â chymudo mewn cerbyd modur preifat, gall cymudwyr rheilffyrdd brofi cyfradd farwolaethau pob achos sydd 10% yn is, a chyfradd sydd 20% yn is ar gyfer ymudwyr ar feic. Mae pobl sy'n beicio yn rheolaidd yn cynyddu eu disgwyliad oes o flwyddyn ar gyfartaledd o'i gymharu â phobl sy'n dibynnu ar drafnidiaeth modur. |

6.2 Mae'n bwysig sicrhau bod effeithiau negyddol posibl a manteision iechyd a lles cadarnhaol datblygiad newydd yn cael eu hystyried yn llawn fel rhan o ddyluniad cynllun er mwyn helpu i greu datblygiadau iach. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn

tynnu sylw at y ffaith bod gan ACLlau drwy'r swyddogaeth rheoli datblygu gyfrifoldeb dros sicrhau bod cynigion datblygu newydd yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant:

> *"Mae gan awdurdodau cynllunio eu rhan i atal salwch corfforol a meddyliol sy'n cael eu achosi neu eu gwaethygu gan lygredd neu oherwydd diffyg cysylltiad â gweithgarwch cymdeithasol (sy'n cyfrannu at unigrwydd), yn ogystal â hyrwyddo patrymau teithio sy'n annog bywydau actif.*
>
> *Rhaid i'r system gynllunio ystyried effeithiau datblygiad newydd ar gymunedau a diogelu iechyd, lles ac amwynderau. Gall hynny gynnwys darparu asedau cymunedol ac iechyd fel neuaddau cymuned, llyfrgelloedd, meddygfeydd ac ysbytai, gan sicrhau cysylltiad rhwydd â nhw.*
>
> *Dylid cadw'r effeithiau ar iechyd mor fach â phosib bob tro, yn enwedig os gallai datblygiad newydd gael effaith andwyol ar iechyd, amwynder a lles. Os na ellir datrys yr effeithiau ar iechyd neu amwynder mewn ffordd foddhaol, dylid gwrthod y datblygiad" (Paragraff 3.21)*

6.3 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylai'r mecanwaith ar gyfer asesu effaith cynlluniau neu gynigion datblygu ymgorffori ystyriaethau iechyd, lle mae effaith sylweddol ar iechyd pobl yn debygol.

6.4 "Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn help gwerthfawr i baratoi cynlluniau. Gall fod yn ddefnyddiol wrth gynnig neu wneud penderfyniadau ynghylch datblygiad newydd ac wrth ystyried y dystiolaeth a gesglir gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus." (Paragraff 3.24)

6.5 Yn unol â hynny, bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr datblygiadau newydd ystyried yr effeithiau posibl tebygol, cadarnhaol a negyddol, y gall eu cynigion eu cael ar iechyd a lles ac ymgorffori mesurau priodol i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd o fewn dyluniad eu datblygiad.

6.6 Er mwyn cyflawni hyn, mae Polisi Strategol SP5 yn gofyn bod datblygwyr yn asesu a deall effaith eu cynlluniau ar iechyd a lles drwy gynnal naill ai Asesiad Effaith ar Iechyd Cyflym neu offeryn sgrinio AEI yn ddarostyngedig i'r trothwyon a nodir yn Nhabl 1.

| **Tabl 1: Trothwyon ar gyfer Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a Rhestr Wirio Cynllunio ar gyfer Iechyd** | | |
|---|---|---|
| **MATH Y DATBLYGIAD** | **RHESTR WIRIO SGRINIO CREU LLEOEDD IACH** | **Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cyflym** |
| Preswyl | Rhwng 10 a 99 o anheddau neu arwynebedd o 0.5 hectar i 2 hectar | 100 neu fwy o Anheddau neu fwy na 2 hectar |
| Cyflogaeth/Masnachol Arall/Hamdden | Arwynebedd Llawr Adeiledig o 1,000m2 i 4,000m2 | Arwynebedd Llawr Adeiledig mwy na 4,000m2 |

6.7 Bydd angen sgrinio ar gyfer AEI ar bob cais cynllunio o 10 uned breswyl/1000m2 neu fwy. Mae'r cam sgrinio yn cynnig ffordd systematig o benderfynu a oes angen AEI llawn. Dylai sgrinio adnabod pwy sy'n cael ei effeithio o bosibl gan ddatblygiad arfaethedig, yr effaith, os o gwbl, ar iechyd yn ogystal â graddfa bosibl unrhyw effeithiau a nodwyd.

6.8 Bydd yr asesiad sgrinio yn gyffredinol yn gymesur â maint y datblygiad; po fwyaf yw'r datblygiad, y mwyaf manwl y disgwylir i'r ymatebion i'r cwestiynau fod, tra bod datblygiadau llai yn fwy tebygol o roi crynodeb byr.

6.9 Esbonnir rhagor o fanylion o ran AEI a sut i ddefnyddio'r Rhestr Wirio Creu Lleoedd Iach yn adrannau 6.2 i 6.5 isod.

## 7 ASESIADAU O'R EFFAITH AR IECHYD (AEI)

7.1 Mae Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI) yn broses systematig ac iteraidd sy'n galluogi datblygwyr i asesu effeithiau posibl eu cynigion ar iechyd a lles gwahanol grwpiau yn y boblogaeth, a gwneud argymhellion priodol, i helpu i wneud y mwyaf o'r effeithiau cadarnhaol a lleihau'r effeithiau negyddol trwy fireinio cynlluniau. Dylid cynnal AEI ar gam cynnar er mwyn llywio dyluniad cynllun.

7.2 Defnyddir AEIau ar gyfer amrywiaeth eang o gynigion, cynlluniau a phrosiectau, a gallant fod ar un o ddwy ffurf: - Cyflym neu Gynhwysfawr:

- Mae AEI Cyflym fel arfer yn cynnwys ymchwiliad byr i effeithiau ar iechyd, gan gynnwys adolygiad llenyddiaeth gryno o dystiolaeth feintiol ac ansoddol a chasglu gwybodaeth a thystiolaeth bellach gan nifer o randdeiliaid lleol. *Mae'r math hwn o AEI yn fwyaf addas ar gyfer cynigion datblygu o raddfa benodol (y rhai yng ngholofn 3 yn nhabl 1 uchod).*

- Mae AEIau Cynhwysfawr yn fwy manwl ac mae angen mwy o fanylion ynghylch effeithiau posibl ar grwpiau poblogaeth allweddol, penderfynyddion iechyd ac anghydraddoldebau iechyd, chwiliadau llenyddiaeth helaeth a chasglu data sylfaenol. Mae angen ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer AEI llawn. Ystyrir bod y mathau hyn o AEI yn fwy addas ar gyfer cynigion, prosiectau neu gynlluniau cymhleth o natur strategol.

7.3 Roedd y Cyngor o'r farn, ar gyfer y rhan fwyaf o gynigion datblygu, mai AEI Cyflym fydd y math mwyaf addas o AEI i'w gynnal. Gan fod y rhain yn cynnig cyfle i ddod â chynllunwyr, datblygwyr, ymarferwyr iechyd, penseiri a rhanddeiliaid eraill at ei gilydd i nodi sut y gall cynigion ddarparu'r ystod ehangaf o fuddion iechyd a lles a lleihau effeithiau andwyol posibl.

7.4 Mae Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (UGAEIC) wedi cyhoeddi canllaw ar gynnal asesiadau effaith ar iechyd (AEIau)

7.5 Mae Polisi SP5 y CDLIN yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau "fynd i'r afael â phenderfynyddion iechyd perthnasol" a dyma brif ffocws AEIau. Mae Ffigur 2[11] isod yn darparu fframwaith defnyddiol, gan nodi'r ystod eang o

[11] Barton, H. and Grant, M. (2,006) A health map for the local human habitat. http://eprints.uwe.ac.uk/7863/2/The_health_map_2006_JRSH_article_-_post_print.pdf

benderfynyddion sy'n dylanwadu ar ein hiechyd a'n lles, o'n nodweddion unigol i'r ecosystem fyd-eang.  Dyma'r ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol sy'n dylanwadu ar iechyd a lles yn anuniongyrchol. Maent yn cynnwys yr hyn rydyn ni'n ei fwyta a'i yfed; lle rydyn ni'n byw ac yn gweithio; a'r perthnasoedd cymdeithasol a'r cysylltiadau sydd gennym â phobl a sefydliadau eraill.  Ni all rhai ohonynt, fel rhyw, oedran a hanes teuluol o salwch, newid neu maent yn anodd eu newid, tra bod eraill yn cael eu dylanwadu gan yr amgylchedd cymdeithasol, economaidd a ffisegol yr ydym yn byw ynddo a gellir eu newid gan ymyriadau polisi.

Ffigur 2: Map Iechyd:  Penderfynyddion Iechyd a'r Amgylcheddau Adeiledig a Naturiol




7.6 Mae adolygiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth gan ddefnyddio ymchwil neu adnoddau cyhoeddedig yn gam pwysig wrth ymgymryd ag AEI. Gellir dod o hyd i wybodaeth, data a thystiolaeth berthnasol i lywio datblygiad amgylcheddau iach ar wefan Uned Gymorth Asesu Effaith Iechyd Cymru. Gellir cael rhagor o ddata lleol sy'n gysylltiedig ag iechyd gan Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro.

7.7 Wedi'i lywio gan yr adolygiad tystiolaeth hwn, dylai datblygwyr asesu effeithiau iechyd tebygol cynigion, gan gynnwys eu natur, graddfa, arwyddocâd, amseriad a dosbarthiad. Dylid ystyried yr effeithiau ar wahanol grwpiau poblogaeth, newydd a phresennol, yn ogystal ag unrhyw faterion iechyd allweddol ac anghydraddoldebau iechyd yn yr ardal leol.  Anogir ymgysylltu â'r gymuned leol yn gynnar yn y broses, i lywio'r asesiad a'r atebion lliniaru a/neu’r datganiad

dylunio a mynediad. Fan bellaf, dylai hyn ddigwydd fel rhan o'r broses Ymgynghori Cyn Gwneud Cais.

7.8 Bydd ystyriaethau posibl yn cynnwys:

- dylunio cymdogaeth
- lleoliad a dyluniad tai
- sicrhau hygyrchedd i seilwaith fel llwybrau beicio a cherdded, amwynderau, ardaloedd chwarae, siopau, a thrafnidiaeth gyhoeddus.
- galluogi mynediad i'r amgylchedd naturiol, gan gynnwys mannau gwyrdd preifat neu gyhoeddus

7.9 Dylai canfyddiadau'r asesiad nodi newidiadau posibl i'r cynnig a allai liniaru effeithiau andwyol neu wella effeithiau cadarnhaol. Gallai'r rhain gynnwys mesurau fel y rhai a fanylir yn y CCA hwn yn adrannau 7-15 a dylid cofnodi unrhyw fesur lliniaru yn yr AEI a gyflwynir a'i nodi mewn datganiad cynllunio ar adeg ei gyflwyno.

## RHESTR WIRIO CYNLLUNIO AR GYFER IECHYD

7.10 Mae Tabl 1 yn nodi'r trothwy ar gyfer datblygiadau lle bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol cwblhau Rhestr Wirio Cynllunio ar gyfer Iechyd a Lles i gyd-fynd ag unrhyw gyflwyniad cynllunio. Mae'r Rhestr Wirio a'r ffactorau y mae'n rhaid i ddatblygiad eu hystyried wedi'u nodi yn Atodiad 1.

7.11 Nod y rhestr wirio yw sicrhau bod datblygwyr, dylunwyr trefol a phenseiri yn ystyried sut y gall eu cynigion gyfrannu tuag at greu amgylcheddau cynhwysol ac iachach ar gamau cynharaf y datblygiad ac y gellir all-ddylunio neu liniaru unrhyw effeithiau andwyol posibl yn effeithiol. Dylid defnyddio'r rhestr wirio hefyd i gynorthwyo’r AEI trwy nodi mesurau posibl i liniaru unrhyw ganlyniadau negyddol a nodwyd.

7.12 Mae'r rhestr wirio wedi'i rhannu'n ôl y themâu iechyd a llesiant a nodir isod yn y CCA hwn ac mae'n gofyn cwestiynau sy'n ymwneud â'r canllawiau cynllunio a ddarperir. Cydnabyddir efallai na fydd rhai materion yn berthnasol i gynnig datblygu penodol nac i amgylchiadau lleol.

7.13 Mae'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr nodi ac esbonio sut mae eu datblygiad wedi ymgorffori mesurau iechyd a llesiant neu egwyddor ddylunio i gyflawni deilliannau cadarnhaol. Yn wahanol i AEI, ni ddylai rhestrau gwirio

Cynllunio ar gyfer Iechyd fod angen ymgynghorydd arbenigol a dylent allu cael eu cwblhau gan ddatblygwr, ymgynghorydd cynllunio neu bensaer.

7.14 Er mwyn cynorthwyo ymgeiswyr, mae'r adran ganlynol yn tynnu sylw at y materion iechyd a llesiant allweddol y dylid eu hystyried ac yn darparu canllawiau ar y mathau o ymyriadau y gellir eu hymgorffori mewn cynigion datblygu newydd; mae llawer ohonynt yn seiliedig ar ganllawiau dylunio arfer gorau a pholisi cynllunio. Ceir canllawiau manwl pellach yng nghanllaw Iechyd Cyhoeddus Cymru ar greu lleoedd a gofodau iachach[12].

## DATGANIADAU DYLUNIO A MYNEDIAD

7.15 Gall dyluniad ac ansawdd adeiladau a mannau cyhoeddus gael effeithiau cadarnhaol a negyddol ar iechyd a lles. Dylai lleoedd, adeiladau a chyfleusterau hefyd gael eu cynllunio'n ofalus i weddu ystod eang o grwpiau oedran.

7.16 Dylid pwyso a mesur sut mae cynigion datblygu trwy ddylunio a chynllunio yn y camau cynharaf yn rhoi cyfle i ystyried sut y gall preswylwyr y dyfodol gael mynediad hawdd at wasanaethau newydd ac wedi eu cynllunio ar lefel y gymdogaeth, a sut y gall dwysedd a chynllun safle annog teithio llesol.

7.17 Yn unol â hynny, lle mae Datganiad Dylunio a Mynediad (DDM) yn ofyniad, dylid ystyried sut mae dylunio a hygyrchedd yn cyfrannu at iechyd a lles, a dylai anelu at wneud y mwyaf o'r manteision iechyd cadarnhaol posibl a'r deilliannau llesiant. Fel y cyfryw, dylai DDM gynnwys cyfeiriadau i ddangos sut mae eu cynigion wedi ystyried iechyd a lles trwy gyfeirio yn benodol at y mesurau hynny a nodwyd yn y Rhestr Wirio Cynllunio ar gyfer Iechyd a Lles.

## CYNNWYS A CHYFRANOGIAD Y GYMUNED

7.18 Mae deialog gynnar gyda'r gymuned a sefydliadau lleol yn rhoi cyfle i nodi anghenion mwy penodol yn yr ardal leol, a llunio sut y gall dyluniad y datblygiad ymateb i fynd i'r afael â dyheadau'r gymuned.

[12] Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2018. Creu lleoedd a gofodau iachach ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Ar gael yn: https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2020/07/Creating-healthier-spaces-places-Cymru.pdf

7.19 Gall ymgysylltu a chydweithio ar gam cynnar yn y broses ddatblygu gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro hefyd dynnu sylw at sut y gall cynigion gyfrannu tuag at fynd i'r afael â materion iechyd penodol yn yr ardal.

7.20 Yn hyn o beth, dylai ystyried iechyd a lles fod yn rhan annatod o'r broses ymgynghori cyn ymgeisio (YCY)[13] y mae'n ofynnol i'r datblygwr ei chynnal fel rhan o'r broses gynllunio.

7.21 Mae hefyd yn bwysig cydnabod y gall y weithred o gymryd rhan mewn ymgysylltu cymunedol ei hun wella iechyd a lles pobl a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Er enghraifft, gall wella hyder a gwybodaeth pobl, eu grymuso a gwella rhwydweithiau cymdeithasol[14] [15].

## 8 ANNOG DEWISIADAU TEITHIO CYNALIADWY LLESOL

8.1 Mae cysylltu pobl i swyddi, addysg a hyfforddiant, hamdden a hamddena, canolfannau trefi a lleol, lleoedd cyfagos, mannau gwyrdd helaeth ac i fywyd gwyllt, gwasanaethau cymorth, ac i'w gilydd, yn hanfodol bwysig ar gyfer iechyd a lles. Bydd creu lleoedd wedi'u cysylltu'n dda mewn amgylchedd sy'n annog opsiynau teithio diogel, cynaliadwy yn cynyddu gweithgarwch corfforol ac yn hyrwyddo rhyngweithio cymdeithasol, yn ogystal â lleihau llygredd aer, sŵn, cyfraddau damweiniau traffig ffyrdd ac allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth.

### DEWISIADAU TEITHIO LLESOL

8.2 Mae Teithio Llesol yn golygu bod yn weithgar yn gorfforol trwy ddefnyddio math o deithio fel cerdded neu feicio i wneud teithiau bob dydd. Gall pwrpas y daith, boed yn gymudo uniongyrchol i'r gwaith neu'r ysgol, neu daith fwy hamddenol er pleser, ddylanwadu ar ofynion dylunio'r llwybr, ond mae'r ddau yn gadarnhaol i iechyd.

---

[13] Mae gofyniad i ymgeiswyr gyflwyno adroddiad ymgynghori cyn gwneud cais ar gyfer pob cais amlinellol neu lawn ar gyfer cynigion 'mawr'. Diffinnir datblygiad ‘mawr’ yn erthygl 2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

[14] Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). 10 Mawrth 2015 Ymgysylltu â’r Gymuned: Gwella Iechyd a Lles a Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd. Ar gael yn: https://www.nice.org.uk/guidance/ng44/resources/community-engagement-improving-health-and-wellbeing-and-reducing-health-inequalities-pdf-1837452829381

[15] Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2019. Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ar gyfer Grymuso. Ar gael yn: https://phw.nhs.wales/news/rules-of-community-engagement-relinquish-your-power-so-that-communities-can-take-control/principles-of-community-engagement-for-empowerment/

8.3 Gall dyluniad yr amgylchedd adeiledig ei gwneud hi'n anodd i rai aelodau o gymdeithas fod yn weithgar, er enghraifft, gall rhwystrau ar droedffyrdd a graddiannau serth atal a rhwystro pobl oedrannus a'r rhai sydd â symudedd cyfyngedig. Yn yr un modd, gall ffyrdd prysur, diffyg llwybrau cerdded neu feicio diogel leihau cyfleoedd i blant gerdded i'r ysgol neu atal unigolion rhag bod yn gorfforol weithgar fel rhan o'u trefn ddyddiol.

8.4 Yn unol â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ac er mwyn helpu i annog gweithgarwch corfforol, dylai cynigion datblygu newydd hyrwyddo cerdded a beicio dros ddulliau eraill.  Dylai dyluniad a chynllun strydoedd a phalmentydd sicrhau mynediad diogel a chyfleus i'r rhwydwaith ehangach, a lle bo'n bosibl wella llwybrau teithio llesol presennol[16], a cheisio mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i symudiad cerddwyr a beicwyr megis topograffeg neu rwystrau ffisegol eraill.

8.5 Gall creu lleoedd sydd â chysylltiadau da, sy'n hawdd eu cyrraedd trwy gerdded a beicio ac sy'n cynnig mannau agored annog pobl i fyw ffordd o fyw mwy llesol. Gall dylunio mesurau fel mannau agored cyhoeddus a strydoedd sy'n blaenoriaethu anghenion cerddwyr a beicwyr annog ymarfer corff anffurfiol a ffurfiol a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar les corfforol a meddyliol.

8.6 Yn y camau cynharaf yn y broses ddylunio, dylid ystyried sut y gall cynigion annog pobl i fod yn gorfforol actif fel rhan arferol o'u bywydau bob dydd. Mae’r enghreifftiau isod[17] yn tynnu sylw at y mathau o fesurau y gellir eu hintegreiddio i ddyluniad a chynllun adeiladau i annog ffyrdd mwy llesol o fyw.

- Ystyriwch sut y gellir cysylltu'r cynnig â llwybrau cerdded a beicio presennol, a lle bo'n bosibl ddarparu cyfleoedd i ymestyn y rhwydwaith. Sicrhewch bod cyfleusterau, gwasanaethau, mannau chwarae, cyfleoedd addysg a chyflogaeth lleol yn hawdd eu cyrraedd trwy gerdded a beicio e.e. llwybrau;
- Ystyriwch anghenion cerddwyr a beicwyr ar y camau cynharaf yn y broses ddylunio, gan gynnwys darparu cyfleusterau fel parcio a storio beiciau;
- Blaenoriaethu'r cerddwr dros drafnidiaeth modur er enghraifft drwy weithredu parthau 20mya, dulliau o reoli cyflymder traffig (arwyddion, deunyddiau ffyrdd, dyluniad, cynllun, arwynebau a rennir);

[16]Cyngor Bro Morgannwg 2021. Map Rhwydwaith Teithio Llesol. Ar gael yn: https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/Transportation/Active-Travel.aspx

[17] Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE).  Mawrth 2018. Gweithgarwch Corfforol a'r Amgylchedd. Ar gael yn: https://www.nice.org.uk/guidance/ng90

- Sicrhau bod troedffyrdd, llwybrau troed a llwybrau beicio yn gyfleus, yn ddiogel ac yn apelgar i ddefnyddwyr, gan gynnwys pobl â symudedd cyfyngedig, ac yn cael eu hadeiladu a'u cynnal i safon uchel. Darparu llwybrau beicio sydd wedi'u gwahanu'n ddiogel oddi wrth draffig modur.

## 8.1 DEWISIADAU TEITHIO CYNALIADWY

8.7 Pan fydd cyfleoedd cerdded a beicio yn gyfyngedig, megis mewn cymunedau gwledig, dylid ystyried argaeledd gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a mynediad atynt. Dylai dyluniad a chynllun y cynigion alluogi mynediad diogel ac uniongyrchol at wasanaethau trafnidiaeth, a phan gynigir darpariaeth newydd, dylai hyn fod wedi'i leoli o fewn 400m i'r datblygiad.

8.8 Wrth hyrwyddo teithio llesol a chynaliadwy, dylai datblygwyr fynd i'r afael â hygyrchedd a symudiad yn unol â'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy sy'n blaenoriaethu cerddwyr, beicwyr a thrafnidiaeth gyhoeddus dros gerbydau preifat.

Ffigur 3: Hierarchaeth Teithio Cynaliadwy




8.9 Mae'n bolisi'r Cyngor i Gynlluniau Teithio gyd-fynd â chynigion datblygu mawr sy'n anelu at hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy a lleihau lefel y defnydd o geir a gynhyrchir gan y cynnig. Dylid cynllunio cynlluniau teithio i annog pobl i ddefnyddio dulliau teithio diogel, iachach a chynaliadwy a lleihau eu dibyniaeth ar geir.

8.10 Dylai cynlluniau teithio:

- Ddarparu opsiynau i gynyddu teithio llesol, gan gynnwys i bobl ag anawsterau symudedd neu blant.
- Lleihau nifer y ceir a cherbydau preifat eraill; ac felly lleihau allyriadau carbon a gwella ansawdd aer

- Lleihau'r tebygolrwydd y bydd y datblygiad yn creu angen am fwy o gapasiti ffyrdd neu ffyrdd newydd.
- Cefnogi seilwaith a gwasanaethau sy'n gwella cysylltiadau rhwng cymunedau.

8.11 Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu CCA Cynllun Teithio sy'n nodi gofynion y Cyngor ar gyfer paratoi a chwmpas cynlluniau teithio. Yn ogystal, mae Polisi SP12 Seilwaith Cymunedol a Rhwymedigaethau Cynllunio y CDLIN a CCA Rhwymedigaethau Cynllunio'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i bob datblygiad newydd gael ei wasanaethu gan ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy. Felly, gall y Cyngor geisio cyfraniadau tuag at gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus i wasanaethu datblygiad newydd.

8.12 Mae'r canllawiau canlynol yn darparu enghreifftiau o'r mesurau y gellir eu hymgorffori mewn datblygiad i sicrhau bod anghenion yr holl ddefnyddwyr trafnidiaeth yn yr hierarchaeth yn cael eu hystyried:

| Modd | Mesurau i'w hystyried yn y camau dylunio a gweithredol |
|---|---|
| Cerddwyr | • Darparu llwybrau cyfleus, sy'n hawdd, yn ddiogel ac yn ddeniadol i'w defnyddio.<br>• Creu 'Parthau Cartrefi'[18] sy'n lleihau tra-arglwyddiaeth ceir.<br>• Darparu arwyddion clir a goleuadau lle bo hynny'n briodol.<br>• Darparu llwybrau sy'n hygyrch i bobl anabl, yn enwedig defnyddwyr cadair olwyn.<br>• Cysylltu llwybrau â chyfleusterau lleol, nodau trafnidiaeth gyhoeddus, mannau agored, a llwybrau troed pellter hirach fel llwybrau hawliau tramwy cyhoeddus.<br>• Darparu croesfannau i gerddwyr wedi'u lleoli'n gyfleus ar rannau prysur o'r ffordd.<br>• Osgoi graddiannau serth (heb fod yn fwy na 1:20);<br>• Darparu seddi mewn lleoliadau priodol. |
| Beicwyr | • Darparu llwybrau uniongyrchol, diogel a deniadol.<br>• Sicrhau bod llwybrau mor ddi-dor â phosibl, gan osgoi stopiau neu ddargyfeirio aml.<br>• Llwybrau cyswllt o fewn datblygiadau i'r rhwydwaith beicio ehangach.<br>• Darparu parcio beiciau amlwg, diogel a ddylai fod yn agos at fynedfeydd adeiladau neu y tu mewn i adeiladau a dylai osgoi'r angen i gario beiciau dros risiau. |

[18] Sefydliad y Peirianwyr Priffyrdd Corfforedig. Mehefin 2002. Canllawiau Dylunio Parthau Cartrefi. Ar gael yn: https://www.theihe.org/wp-content/uploads/2019/03/Home-Zone-Design-Guideline.pdf

| | |
|---|---|
| | • Darparu cyfleusterau cerddwyr a beicwyr ar y cyd dim ond mewn amgylchiadau lle nad yw cyfleusterau ar wahân i feicwyr ar y lôn gerbydau yn ymarferol, er ni ddylid peryglu diogelwch cerddwyr. |
| Trafnidiaeth Gyhoeddus | • Dylid darparu mynediad digonol ar gyfer gwasanaethau bws a cherbydau gwasanaeth.  Fodd bynnag, ni ddylai hyn fod ar draul diogelwch a symudiad rhwydd cerddwyr a beicwyr.<br>• Dylid darparu cyfleusterau i deithwyr, fel llochesi bysiau a gwybodaeth am amserlenni, mewn ymgynghoriad â'r Cyngor. Fel arall, efallai y bydd angen gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus eraill.<br>• Dylid darparu mynediad cyfleus i gerddwyr gyda safleoedd bws wedi'u lleoli o fewn 400m. |
| Cerbydau Modur Preifat | • Darparu pwyntiau gwefru ceir trydan i hyrwyddo cerbydau dim carbon/carbon isel.<br>• Ffyrdd mewnol sydd wedi'u cynllunio ar gyfer cyflymder cyfartalog o 20mya neu lai, yn enwedig ar gyffyrdd a chroesfannau cerddwyr/beiciau.<br>• Cyfyngu ar y defnydd o gylchfannau gan fod y rhain yn creu mannau croesi anodd i gerddwyr a beicwyr.<br>• Ystyriwch ddylunio technegau tawelu traffig ar y cam uwchgynllunio, gan ddefnyddio mesurau fel amgáu strydoedd, lleoliad adeiladau, cyfeiriadedd ffyrdd, culhau ffyrdd a newidiadau i arwynebau ffyrdd.<br>• Lle bo'n bosibl, lleolwch barcio yng nghefn eiddo i ganiatáu cynlluniau strydoedd sy'n dda i gerddwyr.<br>• Ystyried lleihau gofynion parcio safonol mewn datblygiadau sy'n cael eu gwasanaethu'n dda gan drafnidiaeth gyhoeddus neu sy'n hygyrch i ystod o wasanaethau a chyfleusterau. |

## 9 CREU MANNAU AGORED HYGYRCH A CHYNHWYSOL

9.1.1 Mae parciau, mannau agored, caeau chwarae, coetiroedd, ymylon ffyrdd, rhandiroedd a gerddi preifat i gyd yn enghreifftiau o seilwaith gwyrdd a mannau agored. Cyfeirir at systemau draenio, pantiau, gwlyptiroedd, afonydd a chamlesi a chyrsiau dŵr eraill fel mannau 'glas'.

9.1.2 Mae Polisi SP5 Creu Lleoedd ac SP18 Seilwaith Gwyrdd y CDLIN yn ei gwneud yn ofynnol i bob datblygiad newydd ystyried darparu mannau gwyrdd anffurfiol a ffurfiol ar y camau cynharaf er mwyn creu rhwydwaith o fannau agored wedi'u cysylltu gan alluogi mwy o hygyrchedd i ystod o ddarpariaeth mannau agored.

9.1.3 Mae agosrwydd a hygyrchedd yr amgylchedd naturiol yn cael ei gysylltu'n gadarnhaol ag ystod eang o welliannau i iechyd corfforol a meddyliol[19] a manteision amgylcheddol ehangach. Gall mynediad i fannau agored annog cyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol, darparu ardaloedd tawel sy'n lleihau straen, ac mewn ardaloedd mwy difreintiedig, mae darparu mannau agored gwyrdd hefyd yn gallu helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd[20] . O fewn gweithleoedd mae mynediad i fannau agored wedi'i gysylltu â chynhyrchiant uwch, boddhad mewn swydd a llai o absenoldebau[21]

9.1.4 Mae angen gofodau rhad ac am ddim, cynhwysol a hygyrch ar blant a phobl ifanc sy'n cynnig cyfleoedd chwarae a hamdden anffurfiol o ansawdd uchel ac amgylcheddau cymdogaeth sy'n dda i blant. Mae chwarae y tu allan hefyd yn hanfodol i blant ddatblygu cydbwysedd, cydlyniad a chryfder corfforol. Mae'n darparu cyfleoedd i blant ennill sgiliau cymdeithasol, a gwella eu dychymyg, eu creadigrwydd a'u gallu i ddatrys problemau. Gall hefyd gryfhau eu hymdeimlad o hunan a'u hymdeimlad o gysylltiad â'u cyfoedion ac â'u cymuned a'r amgylchedd.

9.1.5 Dylai datblygwyr hefyd archwilio cyfleoedd ar gyfer ymgorffori mannau a nodweddion ffurfiol ac anffurfiol sy'n hwyluso chwarae plant, gan gynnwys

[19] Iechyd Cyhoeddus Lloegr a Sefydliad Cydraddoldeb Iechyd UCL. Medi 2014. . Local Action on Health Inequalities: Improving Access to Green Spaces. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/355792/Briefing8_Green_spaces_health_inequalities.pdf

[20] Sefydliad Iechyd y Byd Hydref 2017. Urban Green Space Interventions and Health: A Review of Impacts and Effectiveness. Ar gael yn: https://www.who.int/europe/publications/m/item/urban-green-space-interventions-and-health--a-review-of-impacts-and-effectiveness.-full-report

[21] FitForWork.gov.uk. Manteision Gweithlu Iach. http://fitforwork.org/employer/benefits-of-a-healthy-workforce/

"chwarae stryd" trwy, er enghraifft, fesurau arafu traffig gwell fel arwynebau a rennir a pharthau cartrefi sy'n darparu amgylcheddau gwell i gerddwyr a beicwyr.

9.1.6 Pan gynigir datblygiad newydd, mae'n bwysig sicrhau bod mannau agored gwyrdd (newydd a phresennol) yn hawdd eu cyrraedd i bob defnyddiwr drwy gerdded a beicio ac yn cynnig amrywiaeth o gyfleusterau i annog gweithgarwch corfforol ar draws pob grŵp oedran. Dylai mannau agored ymgorffori ardaloedd tawel sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer seibiant, tawelwch, a rhyngweithio cymdeithasol. Dylid ystyried hefyd wella cysylltiadau rhwng mannau agored i hwyluso rhwydwaith o wahanol fannau sy'n cynnig ystod o weithgareddau. Yn hyn o beth, anogir datblygwyr i ystyried canllawiau a gynhyrchwyd gan Chwarae Cymru sydd wedi cynhyrchu cyfres o becynnau cymorth i gynorthwyo i greu cyfleoedd chwarae cynhwysol a hygyrch i blant a phobl ifanc[22].

9.1.7 Er mwyn sicrhau hygyrchedd da i fannau agored, mae'r Cyngor yn argymell bod ymgeiswyr yn sicrhau bod agosrwydd datblygiadau newydd at fannau agored presennol neu newydd yn cyd-fynd â'r pellteroedd cerdded a argymhellir gan Meysydd Chwarae Cymru[23] .

| **Teipoleg mannau agored** | **Canllawiau Pellter Cerdded** |
|---|---|
| Darpariaeth awyr agored arall | Ardal Chwaraeon Amlddefnydd (AChA) - 700m |
| Ardaloedd chwarae dynodedig/<br>ag offer | Ardal Leol i Chwarae (ALCh)<br>Ardal Leol ag Offer i Chwarae (ALOCh)<br>Ardal Gymdogaeth ag Offer i Chwarae (AGOCh) |
| Pob chwaraeon awyr agored | 1,200m |
| Caeau chwarae | 1,200m |

9.1.8 Gallai'r math o fesurau y gellid eu hintegreiddio i ddyluniad mannau gynnwys:

[22] Chwarae Cymru https://chwarae.cymru/llyfrgell-adnoddau

[23] Meysydd Chwarae Cymru Ionawr 2017. Canllawiau ar gyfer Chwaraeon a Chwarae Awyr Agored, y Tu Hwnt i'r Safon Chwe Erw, Cymru. Ar gael yn: https://www.bridgend.gov.uk/media/xq3bwp4i/guidance-for-outdoor-sport-and-play.pdf

- Darparu (cadw, ôl-ffitio, neu ddylunio) seilwaith a mannau gwyrdd a glas o fewn datblygiadau tai newydd ac wedi eu hadfywio, llwybrau trafnidiaeth a chyfleusterau cymunedol.
- Lle darperir mannau agored newydd, dylid sicrhau ei fod wedi'i leoli yn agos at lwybrau cerdded a beicio, a bod mannau agored yn annog chwarae amrywiol, corfforol actif.
- Dylid sicrhau bod dyluniad a chynllun mannau agored yn galluogi plant i chwarae'n ddiogel y tu allan, er enghraifft drwy ddarparu meysydd chwarae sydd o fewn golwg, defnyddio gofod a rennir, e.e. mabwysiadu egwyddorion dylunio 'Parth Cartrefi'[24], a dylunio strydoedd y gellid eu defnyddio ar gyfer chwarae[25];
- Darparu cyfleoedd ar gyfer chwarae ffurfiol ac anffurfiol o fewn ardaloedd preswyl, o fewn mannau chwarae naturiol lle bo modd.

[24] Sefydliad y Peirianwyr Priffyrdd Corfforedig. Mehefin 2002. Canllawiau Dylunio Parth Cartrefi. Ar gael yn: https://www.theihe.org/wp-content/uploads/2019/03/Home-Zone-Design-Guideline.pdf

[25] Chwarae Cymru. Mawrth 2019. Agor Strydoedd ar gyfer Chwarae. Ar gael yn: https://chwarae.cymru/agor-strydoedd-ar-gyfer-chwarae/

## 10 CREU AMGYLCHEDDAU SY'N DDA I BOBL HŶN

10.1 Yn 2023, daeth Bwrdd Gwasanaethau Lleol Bro Morgannwg yn aelod o Rwydwaith Byd-eang Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Bobl Hŷn, Sefydliadau Iechyd y Byd. O ystyried bod nifer cynyddol o bobl yn byw yn hirach, dylai'r gallu i bobl fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain fod yn ystyriaeth allweddol o fewn cynigion datblygu newydd. Dylai datblygiadau felly fod yn hygyrch ac yn groesawgar i bobl hŷn. Bydd dileu rhwystrau i deithio a gwella hygyrchedd adeiladau yn helpu pobl i barhau i fod yn actif a chyfrannu tuag at gymdeithas yn eu henaint. Gall mesurau fel cymdogaethau uniongyrchol hawdd cerdded ynddynt gyda llwybrau gwastad "heb risiau" i fannau cyhoeddus a chysylltiadau â llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus alluogi annibyniaeth a rhyngweithio cymdeithasol.

10.2 Pan gynigir datblygiadau preswyl newydd, dylid ystyried sut y gall yr ystod, y math a'r cymysgedd o anheddau gyfrannu tuag at ddiwallu anghenion tai y gymuned. Mae hyn yn debygol o gynnwys tai fforddiadwy a gall gynnwys tai sydd wedi'u cynllunio ar gyfer pobl hŷn. Gall darparu llety arbenigol helpu i ganiatáu i bobl hŷn fyw'n annibynnol yn y gymuned. Yn yr un modd, sicrhau bod anheddau newydd yn cael eu hadeiladu i Safon Cartrefi Gydol Oes[26], neu wedi'u cynllunio fel y gellir eu haddasu'n hawdd i ddiwallu anghenion newidiol hefyd. Yng Nghymru, mae'n ofyniad i gartrefi newydd a ariennir yn gyhoeddus gydymffurfio â'r Safon Cartrefi Gydol Oes[27].

10.3 Mae Polisi SP7 Darpariaeth Tai Fforddiadwy a Pholisi SP8 Gofynion Tai Fforddiadwy y CDLlN yn nodi gofynion y Cyngor ar gyfer darparu cyfraniadau tai fforddiadwy fel rhan o unrhyw ddatblygiad preswyl newydd. Wrth geisio cyfraniadau tai fforddiadwy, bydd y Cyngor yn negodi gyda datblygwyr i sicrhau bod y cymysgedd tai fforddiadwy yn diwallu anghenion y gymuned orau. Mae rhagor o fanylion am ddull y Cyngor o sicrhau tai fforddiadwy wedi'u nodi yng Nghanllaw Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy y Cyngor.

10.4 Wrth ddylunio datblygiad newydd, dylai datblygwyr ystyried ymgorffori'r egwyddorion da i bobl hŷn canlynol yn eu cynllun, llawer ohonynt yn gyson ag arferion dylunio da cyffredinol. Mae'r egwyddorion hyn sy'n sy'n dda i bobl hŷn yn cynnwys:

---

[26] Cymdeithas Tai Habinteg 2011. Canllaw dylunio cartrefi gydol oes. Ar gael yn: https://www.brebookshop.com/samples/326824.pdf

[27] Llywodraeth Cymru. Gorffennaf 2021. Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021, Mannau a Chartrefi Prydferth. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-08/gofynion-ansawdd-datblygu-ar-gyfer-cymdeithasau-tai.pdf

- Hyrwyddo cymdogaethau cerddadwy sy'n rhoi blaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr dros gerbydau modur - er enghraifft trwy fabwysiadu'r egwyddor o 'barthau cartrefi[28]' o fewn datblygiadau newydd.
- Sicrhau bod llwybrau cyhoeddus wedi'u goleuo'n dda gydag arwyneb gwastad. Lle mae newidiadau i lefelau daear, dylai'r newid fod yn raddol ac osgoi cyflwyno grisiau. Lle mae grisiau'n anochel, dylid darparu rheiliau llaw.
- Darparu meinciau a seddi yn ysbeidiol ar hyd prif lwybrau cerddwyr a mannau cyhoeddus.
- Ymgorffori amrywiaeth o fannau agored sy'n cynnig ardaloedd tawel i ffwrdd o'r rhwydwaith priffyrdd.
- Sicrhau bod adeiladau'n cynnwys mynediad heb risiau neu arwyddion clir yn cyfeirio at ddewisiadau amgen hygyrch.
- Sicrhau bod cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn hygyrch gyda safleoedd bws wedi'u lleoli o fewn pellteroedd cerdded hawdd (o fewn 400m).
- Sicrhau bod llwybrau troed yn gyfleus, yn ddiogel ac yn rhydd o rwystrau diangen (boed yn barhaol neu dros dro).
- Darparu ar gyfer ystod o fathau o gartrefi sy'n darparu ar gyfer anghenion yr henoed, gan gynnwys Cartrefi Gydol Oes, neu'r rhai sydd wedi'u cynllunio a'u hadeiladu i'w galluogi i gael eu haddasu'n hawdd ac yn fforddiadwy i ddiwallu anghenion yn y dyfodol.

[28] Sefydliad y Peirianwyr Priffyrdd Corfforedig. Mehefin 2002. Canllawiau Dylunio Parth Cartrefi. Ar gael yn: https://www.theihe.org/wp-content/uploads/2019/03/Home-Zone-Design-Guideline.pdf

## 11 AMGYLCHEDDAU SY'N DEALL DEMENTIA

11.1 Yn y DU mae dros 850,000 o bobl yn byw gyda dementia a gyda phoblogaeth sy'n heneiddio ar gynnydd, amcangyfrifir y bydd y ffigwr hwn yn cynyddu 35% erbyn 2025[29].

11.2 Canfu ymchwil a gynhaliwyd gan y Gymdeithas Alzheimer's mai dim ond unwaith yr wythnos neu lai aml y mae 35% o bobl â dementia yn gadael eu cartref a 10% unwaith y mis neu lai[30]. Yn yr un modd, mae ymchwil a gynhaliwyd gan Brifysgol Oxford Brookes yn tynnu sylw at y ffaith bod y rhai sy'n byw gyda dementia yn llawer mwy cyfyngedig yn gorfforol na'r rhai heb ddementia, gan gyfyngu eu teithiau i fod o fewn pellter cerdded i'w cartrefi pan fyddant heb gwmni[31].

11.3 Mae'n hanfodol bod pobl â dementia yn cael eu cefnogi i aros mor weithgar yn gorfforol, meddyliol a chymdeithasol ag y gallant, mae'r amgylchedd adeiledig a naturiol lleol yn chwarae rhan fawr wrth benderfynu pa mor hawdd y maent yn gallu gwneud hyn. Mae'r amgylchedd felly yn hanfodol bwysig i ansawdd bywyd pobl[32].

11.4 I bobl sy'n byw gyda dementia, gall amgylcheddau diogel a hygyrch wella annibyniaeth bersonol yn sylweddol a chyfoethogi ansawdd eu bywyd yn fawr. Mae amgylcheddau o'r fath yn cynnwys amrywiaeth o ddefnyddiau, maent ar ffurf drefol amrywiol ac yn cynnwys nodweddion amgylcheddol sy'n hawdd eu deall. Maent yn cynnwys mannau agored croesawgar a strydoedd byr, wedi'u cysylltu'n dda gyda mynediad gweledol da a llwybrau troed llyfn a llydan wedi'u gosod â cherrig palmant atal llithro, nad ydynt yn adlewyrchu[33].

[29] Kings College London a'r London School of Economics. Tachwedd 2014. Dementia UK: Diweddariad. Ail argraffiad. Ar gael yn: https://www.alzheimers.org.uk/sites/default/files/migrate/downloads/dementia_uk_update.pdf

[30] Kings College London a'r London School of Economics. 2007 Dementia UK. Ar gael yn: https://www.alzheimers.org.uk/sites/default/files/2018-10/Dementia_UK_Full_Report_2007.pdf?fileID=2 alzheimers_16425

[31] Lynne Mitchell ac Elizabeth Burton, Prifysgol Oxford Brookes. Ionawr 2006. Neighbourhoods for Life: Designing Dementia-Friendly Outdoor Environments.

[32] RTPI. Medi 2020. Dementia a Chynllunio Trefol, Cyngor Ymarferol RTPI. Ar gael yn: dementiatownplanningpracticeadvice2020.pdf (rtpi.org.uk)

[33] Ibid

11.5 Wrth ddylunio datblygiadau newydd, dylai datblygwyr ystyried ymgorffori'r 6 elfen ganlynol sy'n cyfrannu at greu amgylcheddau sy’n deall dementia[34]:

**Amgylchedd cyfarwydd**

- Mae lleoedd ac adeiladau wedi hen sefydlu gydag unrhyw newid ar raddfa fach ac yn raddol.
- Mae swyddogaethau lleoedd ac adeiladau yn amlwg.
- Mae nodweddion pensaernïol a dodrefn stryd mewn dyluniadau sy'n gyfarwydd neu’n hawdd i bobl hŷn eu deall.

**Amgylchedd dealladwy**

- Mae yna hierarchaeth mathau strydoedd, megis prif strydoedd, strydoedd ochr, lonydd cefn, a rhodfeydd.
- Mae blociau'n fach ac wedi'u gosod ar grid afreolaidd wedi ei seilio ar batrwm bloc perimedr wedi'i addasu.
- Mae strydoedd yn fyr ac yn gul, wedi'u cysylltu'n dda ac yn troelli’n ysgafn gyda throeon agored i hwyluso parhad gweledol, mae cyffyrdd T a fforchiog yn fwy cyffredin na chroesffyrdd.
- Mae arwyddion cudd wedi'u lleoli lle mae mynediad gweledol yn dod i ben, yn enwedig ar bwyntiau penderfynu, fel cyffyrdd a throadau.
- Mae mynedfeydd i leoedd ac adeiladau yn gwbl weledol gyda defnydd cynnil o arwyddion amlwg. Mae'r arwyddion angenrheidiol ar bwyntiau unigol, yn darparu gwybodaeth syml, hanfodol ar bwyntiau penderfynu, ac mae’r graffeg yn fawr gyda symbolau realistig mewn cyferbyniad lliw clir â'r cefndir.

**Amgylchedd unigryw**

- Mae’r ffurf drefol ac adeiladau yn amrywiol, gydag amrywiaeth o dirnodau gan gynnwys adeiladau hanesyddol a dinesig, strwythurau nodedig a mannau ar gyfer gweithgaredd.
- Mae nodweddion pensaernïol mewn amrywiaeth o arddulliau, lliwiau a deunyddiau.
- Mae amrywiaeth o fannau agored croesawgar, gan gynnwys sgwariau, parciau, a meysydd chwarae. Dylent ymgorffori nodweddion ymarferol, fel coed a dodrefn stryd.

**Amgylchedd hygyrch**

[34] Addaswyd o: Lynne Mitchell ac Elizabeth Burton, Prifysgol Oxford Brookes. Ionawr 2006. Neighbourhoods for Life: Designing Dementia-Friendly Outdoor Environments.

- Mae defnyddiau tir yn gymysg â gwasanaethau a chyfleusterau o fewn 5-10 munud o bellter cerdded o dai.
- Mae llwybrau troed yn llydan ac yn wastad, ac mae gan newidiadau anochel i lefelau lethrau ysgafn gydag uchafswm graddiant o 1 mewn 20.
- Mae mynedfeydd i leoedd ac adeiladau yn amlwg ac yn hawdd i'w defnyddio, mae croesfannau cerddwyr a thoiledau cyhoeddus ar lefel y ddaear.

**Amgylchedd cyfforddus**

- Mae gan ardaloedd trefol fannau agored bach, wedi'u diffinio'n dda gyda thoiledau, seddi, cysgod a goleuadau, yn ogystal â’r defnydd lleiaf posib o arwyddion, byrddau hysbysebu a bolardiau.
- Ceir ffyrdd ochr tawel fel llwybrau amgen i ffwrdd o dorfeydd/traffig. Defnyddir plannu neu ffensys i leihau sŵn cefndir.

**Amgylchedd diogel**

- Mae'r troedffyrdd yn llydan, gyda phalmentydd gwastad, llyfn sy’n atal llithro a heb adlewyrchu.
- Mae lonydd beiciau ar wahân i droedffyrdd, ac mae gan groesfannau cerddwyr arwyddion clywedol.
- Mae gofodau ac adeiladau wedi'u gosod i osgoi creu ardaloedd o gysgodion tywyll neu ddisgleirdeb llachar, ac mae goleuadau stryd yn ddigonol ar gyfer pobl â nam ar eu golwg.

## 12 GALLUOGI DEWISIADAU BWYD IACH

12.1.1 Mae argaeledd bwyd iach, fforddiadwy lleol yn gysylltiedig â gwell agweddau tuag at fwyta'n iach ac ymddygiad prynu bwyd iachach, yn ogystal â newidiadau i ymddygiad dietegol, megis mwy o fwyta ffrwythau a llysiau.

12.1.2 Mae darparu ardaloedd ar gyfer tyfu bwyd o fewn datblygiadau newydd yn cynnig cyfle i unigolion a chymunedau gael mynediad at ffrwythau a llysiau ffres, gan gyfrannu at ffyrdd iach o fyw ac annog gweithgarwch corfforol. Yn ogystal, gall garddio a thyfu bwyd hefyd gyfrannu at les meddyliol a chynhwysiant cymdeithasol, a darparu manteision economaidd, amgylcheddol ac addysgol[35]. Yn dibynnu ar y cynnig, gallai ymgorffori ardaloedd tyfu gyfrif tuag at ddarparu mannau agored ar y safle yn ôl yr angen neu fod yn rhan o seilwaith gwyrdd safle.

12.1.3 Darparu rhandiroedd yw'r ffordd fwyaf cyffredin o ddarparu cyfleoedd anffurfiol ar gyfer cynhyrchu bwyd lleol. Fodd bynnag, os mai cyfyngedig yw'r posibiliadau i ddarparu mannau tyfu awyr agored dynodedig, dylid archwilio atebion creadigol. Gallai mesurau o'r fath gynnwys plannu coed ffrwythau, darparu cynwysyddion a gwelyau gardd uchel o fewn cynlluniau tirlunio, creu mannau tyfu o fewn gerddi cymunedol, cyrtiau mewnol, a gerddi to, neu drwy ddefnyddio gofodau achlysurol. Mewn datblygiadau mwy gallai hyn hefyd gynnwys lleiniau tir sy'n anaddas i adeiladau.

12.1.4 Wrth ddarparu mannau tyfu, dylid ystyried y materion technegol canlynol:

- **Golygwedd a golau**: Yn ddelfrydol, dylai mannau tyfu wynebu'r de. Os yw hyn yn gyfyngedig, gallai gyfyngu= ar y dewis o blanhigion i'r rhai sydd angen llai o olau.
- **Dŵr:** Mae cyflenwad dŵr dibynadwy yn hanfodol i gefnogi gofod tyfu llwyddiannus. Yn ddelfrydol, byddai hyn yn cael ei ddarparu trwy system gynaeafu dŵr glaw cynaliadwy fel casglu o'r to a chasgen ddŵr, ond gallai tap prif gyflenwad ar y safle hefyd fod yn briodol.
- **Pridd/sylwedd tyfu**: Mae gwahanol fathau o bridd yn cefnogi mathau penodol o blanhigion, felly bydd angen ystyried y cynnyrch a ffefrir. Os bydd pridd safle presennol yn cael ei ddefnyddio, yna efallai y bydd angen gwirio ansawdd y pridd, i weld a fyddai'n cefnogi tyfu bwyd.
- **Compost:** Dylid hefyd ymgorffori darparu cyfleusterau compostio ar y safle mewn cynllun datblygu i gynyddu cynaliadwyedd amgylcheddol ac ariannol.

[35] Cynnal Ebrill 2014. Cynllunio Dinasoedd Cynaliadwy ar gyfer Tyfu Bwyd Cymunedol. Ar gael yn: https://www.sustainweb.org/publications/planning_sustainable_cities/

- **Tir Halogedig:** Dylid asesu addasrwydd y tir ar gyfer tyfu bwyd gan y gallai defnyddiau tir blaenorol neu bresennol fod wedi achosi i'r pridd gael ei halogi. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gellir goresgyn halogiad pridd trwy ddefnyddio cynwysyddion neu welyau uchel.
- **Mynediad:** Dylid gosod y gofod tyfu yn y fath fodd fel ei fod yn darparu mynediad digonol, yn enwedig i berson ag anableddau.
- **Storio:** Bydd angen integreiddio i'r dyluniad ddarpariaeth ddigonol ar gyfer storio offer a chyfarpar cysylltiedig.
- **Rheolaeth:** Er mwyn osgoi bod mannau tyfu yn dod yn mynd yn flêr ac yn cael eu tanddefnyddio, mae'n hanfodol ystyried materion rheoli ar y cyfle cynharaf sydd ar gael, yn ddelfrydol yn y cam dylunio.

## 12.2 HYRWYDDO AMGYLCHEDDAU BWYD IACH

12.2.1 Mae canol trefi yn cynnig ystod eang o wasanaethau i ddiwallu anghenion eu trigolion a chaniatáu iddynt fwynhau safon byw uchel. Fodd bynnag, gall cyffredinolrwydd, argaeledd a lleoliad tecawês bwyd poeth annog bwyta afiach, yn enwedig lle gall mynediad at gynnyrch ffres yn lleol fod yn gyfyngedig. Mae siopau tecawê poeth yn gyffredinol yn gwerthu prydau cost isel, dwys o ran ynni heb fawr o werth maethol a all gyfrannu at gynyddu gordewdra a phroblemau iechyd dilynol. Gall cyfyngu ar ddarpariaeth a lleoliad siopau tecawê poeth mewn cymunedau ddylanwadu ar iechyd y cymunedau hynny[36].

12.2.2 Er y cydnabyddir bod defnyddiau tecawês poeth yn darparu cyfleustra o ran y cynnig bwyd, yn enwedig yng nghanol trefi. Fodd bynnag, o'i gymharu â defnyddiau eraill, mae mwy o debygolrwydd y byddant yn cael effaith andwyol ar amwynder, cymeriad a swyddogaeth y ganolfan fanwerthu. Gall crynodiad uchel o siopau tecawês poeth mewn canolfannau a chlystyru'r defnyddiau hyn gyda'i gilydd arwain at effeithiau andwyol, sy'n deillio o fwy o achosion o sbwriel, arogleuon, sŵn, ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac aflonyddwch cyffredinol, yn ogystal â phroblemau parcio a mwy o dagfeydd traffig. Efallai y bydd siopau tecawês poeth ar gau yn ystod oriau golau ddydd, gan arwain at 'ffryntiadau marw' a allai arwain at effeithiau negyddol ar fywiogrwydd a hyfywedd canol trefi. Felly, mae'n bwysig bod y canolfannau hyn yn cadw eu bywiogrwydd a'u hyfywedd ac yn parhau i fod yn hyfyw wrth geisio denu cyfleoedd buddsoddi.

[36] TCPA. Rhagfyr 2014. Cynllunio Amgylcheddau Pwysau Iach Ar gael yn: https://tcpa.org.uk/wp-content/uploads/2022/05/TCPA-Planing-Healthy-Weight-Env-elements.pdf

12.2.3 Er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn, bydd y Cyngor yn rheoli'n ofalus y ddarpariaeth o fwydydd tecawê newydd poeth mewn canolfannau manwerthu yn unol â pholisi Tecawê Bwyd Poeth y Cyngor a'r CCA ategol[37]

12.2.4 Mae tystiolaeth yn awgrymu y byddai lleihau amlygiad i'r amgylchedd bwyd ar hyd llwybrau i'r ysgol yn gwella'r amlygiad amcanol a'r effaith ganlyniadol ar fesurau iechyd fel maint boliau.[38]

12.2.5 Bydd cyfyngu ar siopau tecawê poeth newydd mewn lleoliadau sensitif yn helpu i hyrwyddo cymunedau iach yn helpu i leihau effaith niweidiol bwyd tecawê poeth newydd ar amwynder yr ardal, o ran arogl, sŵn, gwaredu gwastraff a sbwriel cwsmeriaid, aflonyddwch, traffig a diogelwch ar y ffyrdd.

[37] https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Living/Planning/Policy/SPG/Retail-Development-SPG-Welsh-March-2023.pdf

[38] Siopau bwyd cyflym ar lwybr ysgol sy'n arwain at gynnydd bach mewn cylchedd gwasgau - 0.21 (95% CI ond yn cynyddu 0.21 ar gyfer pob allfa ychwanegol - y ddadl yw os oes 10 siop bwyd cyflym yna bod hynny'n dod yn arwyddocaol yn glinigol. Cyfeiriad: Green, MA, Radley, D., Lomax, N. et al. Is adolescent body mass index and waist circumference associated with the food environments surrounding schools and homes? A longitudinal analysis. BMC Public Health 18, 482 (2018). https://doi.org/10.1186/s12889-018-5383-z

# 13 GALLUOGI MYNEDIAD AT WASANAETHAU A CHYFLEUSTERAU CYMUNEDOL

13.1.1 Mae cyfleusterau cymunedol â chwmpas eang sy’n cynnwys amwynderau fel canolfannau iechyd, meddygfeydd, a chyfleusterau addysgol, a chyfleusterau cymdeithasol gan gynnwys neuaddau cymunedol, tafarndai, llyfrgelloedd a mannau addoli. Gall argaeledd gwasanaethau a chyfleusterau lleol sy'n hygyrch trwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus effeithio'n gadarnhaol ar iechyd a lles[39] trwy gynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol a chydlyniant cymunedol.

## 13.2 CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL

13.2.1 Un o brif amcanion cynllunio'r CDLlN yw annog mynediad at gyfleusterau cymunedol i'r gymuned gyfan, a diogelu cyfleusterau cymunedol presennol rhag defnyddiau amgen. Mae SP12 Seilwaith Cymunedol a Rhwymedigaethau Cynllunio y CDLlN yn ceisio sicrhau bod pob datblygiad newydd ym Mro Morgannwg yn cael ei gefnogi gan wasanaethau a chyfleusterau priodol i ddiwallu eu hanghenion ac anghenion y gymuned ehangach, i greu cymunedau diogel, cynaliadwy, byw, iach a chymysg, naill ai drwy ddarparu seilwaith cyfleusterau cymunedol newydd neu drwy wella'r cyfleusterau presennol.

13.2.2 Lle mae angen cyfleusterau cymunedol newydd neu well, bydd y Cyngor yn annog cyfleusterau cymunedol aml-ddefnydd sy'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau cymunedol hygyrch, fel hamdden, gofal iechyd, addysg, mannau cyfarfod cymunedol a gwasanaethau cymunedol hanfodol eraill. Gall cyfleusterau a gofodau a rennir gynorthwyo wrth leihau’r galw i deithio, hyrwyddo cymunedau cynaliadwy, a hwyluso darparu’n effeithlon gyfleusterau cymunedol i amryw o sefydliadau.

13.2.3 Yn hyn o beth, dylai ymgeiswyr ystyried agosrwydd ac argaeledd cyfleusterau cymunedol presennol ac archwilio cyfleoedd i ddarparu gwell hygyrchedd trwy wella darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus, neu gyfleoedd i gyd-leoli gwasanaethau a chyfleusterau.

---

[39] TCPA. 2017 Practical Guide 8: Creating Health-Promoting Environments. Ar gael yn: https://tcpa.org.uk/resources/guide-8-creating-health-promoting-environments/

13.2.4 Wrth ystyried cyfleoedd ar gyfer datblygu mannau cymunedol a rennir, bydd y Cyngor yn disgwyl i ddatblygwyr cynlluniau preswyl mawr ymgysylltu â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, grwpiau cymunedol a sefydliadau eraill y trydydd sector fel rhan o'r cam ymgynghori statudol cyn gwneud cais. Mae ymgysylltu cynnar yn rhoi cyfle i adnabod, ar y camau cynnar, y cyfleoedd posib sydd i ddarparu gwasanaethau o fewn y gymuned a sicrhau hyfywedd hirdymor y gofodau cymunedol a gaiff eu darparu trwy ddatblygu.

## 13.3 GWASANAETHAU IECHYD

13.3.1 Mae gan fynediad at gyfleusterau gofal iechyd rôl allweddol wrth hyrwyddo iechyd a lles. Mae angen sicrhau bod cyfleusterau gofal iechyd yn ddigonol ar gyfer anghenion y gymuned leol, ac y gellir bodloni gofynion yn y dyfodol hefyd. Pan gynigir datblygiad newydd, dylid ystyried capasiti'r gwasanaethau presennol, a darparu cyfleusterau ychwanegol lle bo angen. Mae'r CDLIN yn ceisio sicrhau nad yw datblygiad newydd yn rhoi pwysau gormodol ar wasanaethau presennol.

13.3.2 Gall cyd-leoli gwasanaethau iechyd a gofal gyda chyfleusterau cymunedol eraill ddarparu buddion i bawb. Er enghraifft, mae lleoli cyfleusterau neu wasanaethau iechyd mewn adeilad cymunedol newydd neu bresennol yn cynyddu'r cyfleoedd i bobl gymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau cymdeithasol, tra hefyd yn cefnogi hyfywedd adeiladau cymunedol. Dylai'r safle a nodwyd ar gyfer datblygiadau newydd sicrhau eu bod yn hygyrch a bod y potensial ganddynt i gael eu rhannu gan wahanol ddarparwyr gwasanaeth; a'u bod yn darparu amgylchedd ffisegol ac adeiledig sy'n cefnogi rhyng-gysylltedd, dewisiadau teithio llesol, yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac yn gwella diogelwch ar y ffyrdd.

13.3.3 Bydd cyfleusterau sydd wedi'u cynllunio i'w defnyddio gan gymunedau presennol a newydd yn helpu i ddod â phobl at ei gilydd. Creu màs critigol mwy o drigolion a all ddenu siopau, ysgolion, ac adeiladau iechyd ac adeiladau cymunedol eraill newydd, o fudd i les pawb.

13.3.4 Gellir integreiddio'n llwyddiannus wasanaethau iechyd a lles newydd i ddatblygiadau defnydd cymysg, yn enwedig lle mae angen adeiladau cymunedol newydd fel rhan o ddatblygiad, gan roi'r cyfle i wella mynediad at iechyd trwy seilwaith cymunedol arall. Yn unol â hynny, bydd y Cyngor yn ymgysylltu â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i gael cyngor o ran capasiti, lleoliad a hygyrchedd seilwaith iechyd yn yr ardal ac archwilio cyfleoedd ar gyfer cydleoli gwasanaethau iechyd neu wasanaethau eraill o fewn gofod cymunedol newydd.

13.3.5 Pan fydd cyfleoedd yn cael eu nodi, bydd adeiladau cymunedol newydd yn gofyn i ddatblygwyr weithio gyda'r Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid i sicrhau bod mannau cymunedol yn cael eu cynllunio i ddarparu ar gyfer y gwasanaethau sydd i'w darparu.

## 14 DIOGELWCH CYMUNEDOL

14.1 Mae lleihau troseddu a diogelwch cymunedol yn amlwg yn effeithio ar iechyd a lles, yn uniongyrchol trwy achosion o droseddu ac yn anuniongyrchol trwy ofn troseddu. Gallant effeithio ar ddewisiadau bywyd, megis a ddylid a pha bryd i fynd allan sydd, yn ei dro, yn atal cyfleoedd i bobl gan arwain at ynysu cymdeithasol.

14.2 Dylid ystyried mesurau i leihau ofn troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gamau cynnar y broses ddatblygu er mwyn caniatáu dull integredig o fynd i'r afael â materion. Er mwyn helpu i leihau troseddu ac ofn troseddu, a chynyddu diogelwch cymunedol, dylai cynigion datblygu:

- Gymhwyso datrysiadau dylunio mewn strydoedd a mannau cyhoeddus sy'n annog defnydd gweithredol neu gymunedol cyfreithlon ohonynt, gan gynnwys y defnydd o ddeunyddiau, goleuadau effeithiol, dodrefn stryd ac arwyddion

- Osgoi creu mannau troseddu problemus a gwneud y gorau o wyliadwriaeth naturiol a chynnal llwybrau golwg clir ar lwybrau cerdded.

- Gael eu hysbysu gan ymgysylltiad effeithiol â'r gymuned leol a'r sector gwirfoddol fel rhan o'u dyluniad.

14.3 Mae'r Cyngor yn annog datblygwyr i fabwysiadu egwyddorion "Diogelu Drwy Ddylunio" (DDDd) sy'n annog egwyddorion dylunio sy'n ceisio creu lleoedd diogel a deniadol i fyw. Argymhellir bod ymgeiswyr yn cysylltu â Swyddog Lleihau Trosedd trwy Gynllun yr Heddlu Lleol a all gynorthwyo i sicrhau bod dyluniad a chynllun cynigion yn ymgorffori safonau DDDd. Mae rhagor o gyngor ac arweiniad ar DDDd ar gael gan:
https://www.securedbydesign.com/guidance/design-guides

## 15 ANSAWDD AER, SŴN AC AMWYNDER CYMDOGAETHAU

15.1.1 Mae ansawdd aer gwael o lygredd a llwch yn gysylltiedig â nifer o broblemau iechyd gan gynnwys clefyd yr ysgyfaint ac asthma. Gall sŵn a dirgryniad gormodol a golau artiffisial ymyrryd â gweithgareddau dyddiol pobl, achosi aflonyddwch cwsg, straen ac annifyrrwch, lleihau perfformiad, a pheri newidiadau mewn ymddygiad cymdeithasol. Mae cysylltiadau hefyd wedi'u canfod rhwng amlygiad hirdymor i sŵn trafnidiaeth a chynnydd yn y risg o effeithiau cardiofasgwlaidd, gan gynnwys clefyd y galon a phwysedd gwaed uchel.

15.1.2 Felly, mae'n bwysig bod datblygiadau newydd yn cael eu cynllunio'n effeithiol, neu'n ymgorffori mesurau lliniaru priodol, i leihau eu heffaith ar amwynder cymdogaeth.

### 15.2 GWELLA ANSAWDD AER

15.2.1 Mae gan Gymru beth o'r ansawdd aer gwaethaf yn y DU, ac amcangyfrifir ei fod yn cyfrannu at 2,000 o farwolaethau y flwyddyn yng Nghymru (6% o gyfanswm y marwolaethau)[40]. Amcangyfrifir bod cost gymdeithasol llygredd aer o gostau gwasanaethau iechyd a diwrnodau gwaith a gollwyd yn £1 biliwn bob blwyddyn[41].

15.2.2 Mae llygredd aer yn effeithio'n anghymesur ar blant a phobl hŷn, pobl â phroblemau iechyd presennol, yn ogystal â'r rhai sy'n byw neu'n gweithio mewn cymunedau trefol a difreintiedig sy'n agored i grynodiad uwch o lygredd aer. Er mai trafnidiaeth ffyrdd yw'r brif ffynhonnell llygredd aer, mae ffynonellau eraill fel allyriadau o brosesau diwydiannol a gwresogi o adeiladau domestig a masnachol yn cyfrannu at ansawdd aer gwael.

15.2.3 Bydd y math o fesurau a gynigir i leihau effeithiau ar ansawdd aer yn dibynnu ar natur a graddfa'r datblygiad arfaethedig. Felly, dylid ystyried y mesurau

---

[40] Cynulliad Cenedlaethol Cymru Mehefin 2019. Papur Briffio Ymchwil Ansawdd Aer. Ar gael yn: https://ymchwil.senedd.cymru/media/s55ojilj/19-036-web-cy.pdf

[41] Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2016. Gwneud Gwahaniaeth: Buddsoddi mewn Iechyd a Llesiant Cynaliadwy i Bobl Cymru. : https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2020/08/Making-a-Difference-Investing-in-Sustainable-Health-and-Well-being-for-the-People-of-Wales-Supporting-Evidence.pdf Ar gael yn: https://icc.gig.cymru/

canlynol yng ngham dylunio a gweithredol datblygiad i gyfyngu ar amlygiad i, a chreu llygredd aer[42]:

- Ystyriwch sut y bydd plannu coed a lleiniau ymyl wedi'u tirlunio o fewn datblygiadau ac yn agos i briffyrdd yn effeithio ar lif aer a dosbarthiad llygryddion aer.
- Dylid osgoi creu cyfluniadau strydoedd ac adeiladau sy'n annog llygredd i gronni lle mae pobl yn treulio amser.
- Dylid lleihau amlygiad grwpiau agored i niwed i lygredd aer trwy leoli adeiladau (fel ysgolion, meithrinfeydd a chartrefi gofal) i ffwrdd o ardaloedd lle gall lefelau llygredd fod yn uchel.
- Dylid gosod ystafelloedd byw i ffwrdd o ymylon ffyrdd prysur, cyffyrdd, cyrn simneiau ac ati.
- Dylid mabwysiadu mesurau rheoli traffig a pheirianneg traffig i leihau tagfeydd traffig yn enwedig trwy ardaloedd preswyl.
- Lle mae angen cynlluniau teithio dylid ymgorffori canlyniadau ansawdd aer.
- Dylid hyrwyddo rhannu ceir a chlybiau ceir a defnyddio cerbydau allyriadau sero ac isel, trwy ddarparu cyfleusterau gwefru ar gyfer cerbydau trydan.
- Dylid cynyddu uchder cyrn simneiau o fewn datblygiadau diwydiannol.
- Dylid sicrhau bod gwahanu gofodol da rhwng prosesau a gweithgareddau diwydiannol ac ardaloedd preswyl.

## 15.3 LLEIHAU LLYGREDD SŴN

15.3.1 Gall llygredd sŵn hefyd gael effaith ddifrifol ar iechyd a lles. Yn dibynnu ar y raddfa a'r math o ddatblygiad a gynigir, gall yr effeithiau ar iechyd amrywio o annifyrrwch cyffredinol, anniddigrwydd a/neu anhunedd unigolyn, i annifyrrwch difrifol a hirdymor sy'n effeithio ar rannau helaeth o'r gymuned.

15.3.2 Dylai datblygiadau newydd sicrhau eu bod yn cyfrannu at reoli sŵn amgylcheddol, sŵn cymdogion a chymdogaeth yn effeithiol. Gellir cyflawni hyn trwy leihau amlygiad sŵn trwy ddyluniad, cynllun a chyfeiriadedd adeiladau, a thrwy gynnal pellteroedd oddi wrth ffynonellau sŵn presennol, a rheoli camau dymchwel/adeiladu datblygiadau yn ofalus.

[42] The Institute of Air Quality Management: Ionawr 2017. Land-Use Planning & Development Control: Planning for Air Quality. Ar gael yn: https://www.iaqm.co.uk/text/guidance/air-quality-planning-guidance.pdf

15.3.3 Pan fo cynigion datblygu newydd yn agos at ddatblygiad presennol sy'n sensitif i sŵn (e.e. ardaloedd preswyl, ysbytai ac ysgolion), neu lle mae'r datblygiad yn cael ei gynnig yn agos at ffynhonnell sŵn (e.e., ffordd fawr neu ffatri bresennol) efallai y bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gynnal asesiad sŵn. Anogir ymgeiswyr i ddefnyddio gwasanaethau cyn gwneud cais y Cyngor fel bod modd trafod materion o'r fath ar gam cynnar.

## 16 RHAGOR O WYBODAETH A CHYNGOR

### 16.1 CYNGOR CYNLLUNIO CYN GWNEUD CAIS

16.1.1 Gellir ceisio cyngor pellach ar bob agwedd ar y canllawiau hyn gan yr Adran Gynllunio. Cyn cyflwyno cais cynllunio yn ffurfiol, mae'r Cyngor yn annog ymgeiswyr i ddefnyddio gwasanaethau cyn gwneud cais y Cyngor a all arbed gwaith, costau ac oedi diangen a gaiff eu hachosi drwy negodi. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am wasanaethau cynghori cyn gwneud cais y Cyngor ar ei wefan:

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/living/planning_and_building_control/Planning/Planning-Applications/Make-a-Planning-Application.aspx

16.1.2 Neu, gellir cael gwybodaeth a chyngor cyffredinol ar gyflwyno ceisiadau cynllunio gan:

**Rheoli Datblygu**,
Cyngor Bro Morgannwg,
Swyddfeydd Dinesig,
Heol Holltwn,
Y Barri,
CF63 4RU
Ffôn: Swyddog ar Ddyletswydd (01446) 704681
E-bost: planning@valeofglamorgan.gov.uk

### 16.2 ASESIADAU O'R EFFAITH AR IECHYD

16.2.1 Darperir rhagor o wybodaeth am AEI gan Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (UGAEIC). Mae'r uned yn darparu cyngor, cefnogaeth, arweiniad, hyfforddiant ac ymchwil ar gyfer asesiadau effaith ar iechyd ledled Cymru ac fe'i hariannir gan Lywodraeth Cymru drwy Iechyd Cyhoeddus Cymru https://whiasu.publichealthnetwork.cymru/en/

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**
Tîm Iechyd y Cyhoedd Caerdydd a’r Fro,
Tŷ Coetir,
Heol Maes y Coed,
Caerdydd
CF14 4HH
029 21836506

**Swyddog Lleihau Trosedd trwy Gynllun**
Heddlu De Cymru
Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 3CU
01656 761893

# ATODIAD 1: RHESTR WIRIO CYNLLUNIO AR GYFER IECHYD A LLES

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriad y Safle** | |
| **Cynnig Datblygu** | |
| **Dylai data lywio'r mesurau sydd wedi'u hymgorffori i gynigion datblygu. Bydd y dadansoddiad hwn yn helpu i nodi unrhyw faterion iechyd ac anghydraddoldebau allweddol yn yr ardal leol y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw.** | |
| **Beth yw proffil oedran ardal leol y safle? Sut mae hyn yn cymharu â chyfartaledd y Fro?**<br>Ffynhonnell: Data Cyfrifiad | |
| **Beth yw disgwyliad oes a disgwyliad oes iach yn ardal y safle?**<br>Ffynhonnell: Data Cyfrifiad | |
| **A yw'r ardal leol yn allanolyn ar unrhyw un o'r metrigau MALIC?**<br>Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru | |
| **Beth yw amlder y cyfleoedd i dyfu bwyd o fewn y safle?**<br>Ffynhonnell: Asesiad Seilwaith Gwyrdd | |
| **A oes unrhyw broblemau iechyd cyffredin yn yr ardal leol?**<br>Ffynhonnell: Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | |
| **Goblygiadau iechyd cadarnhaol a negyddol datblygiad arfaethedig, ac effeithiau ar benderfynyddion iechyd [Gweler ffigur 2]** | |
| | |

# ATODIAD 1: RHESTR WIRIO CYNLLUNIO AR GYFER IECHYD A LLES

| Thema: Amgylcheddau Iach ac Actif [CCA Adran 7 ac 8] | | | |
|---|---|---|---|
| **Canlyniad**<br>**Meini Prawf** | **Ie** | **Na** | **Esboniwch y mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig** |
| A yw'r cynnig yn hyrwyddo teithio llesol? Er enghraifft drwy gysylltu â llwybrau cerdded a beicffyrdd presennol, a/neu roi cyfle i ymestyn y rhwydwaith ehangach, er enghraifft drwy gysylltu â'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol, Llwybrau Teithio Llesol neu hawliau tramwy cyhoeddus? | | | |
| A yw'r llwybrau cerdded a'r beicffyrdd wedi'u cynllunio mewn modd sy'n cynnig llwybrau diogel a chyfleus sy'n hygyrch i bob defnyddiwr? | | | |
| A fydd llwybrau cerdded a beicio yn cysylltu â chyfleusterau lleol, trafnidiaeth gyhoeddus, mannau agored ac ati, ac yn rhoi mynediad di-rwystr atynt? | | | |
| A fydd darpariaeth storio a pharcio beiciau diogel a chyfleus yn unol â safonau parcio'r Cyngor? | | | |
| A fydd y cynnig yn cynnwys mesurau arafu traffig (fel Parthau Cartrefi) sy'n rhoi blaenoriaeth i gerdded a beicio, ac yn galluogi chwarae anffurfiol yn yr awyr agored? | | | |
| A fydd dyluniad a chynllun adeiladau yn annog gweithgarwch corfforol (e.e. a yw grisiau wedi'u lleoli er mwyn annog pobl i'w defnyddio)? | | | |
| Pan fo angen Cynllun Teithio, a oes dulliau clir ar waith i weithredu mesurau arfaethedig sy'n hyrwyddo teithio llesol? | | | |
| **Thema: Amgylcheddau Sy'n Dda i Bobl Hŷn [CCA Adran 8, 9 a 10]** | | | |
| **Canlyniad**<br>**Meini Prawf** | **Ie** | **Na** | **Esboniwch y mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig** |
| A fydd y cynnig yn cynnwys cartrefi sy'n cael eu hadeiladu yn unol â safonau Cartrefi Gydol Oes a/neu a gynlluniwyd | | | |

# ATODIAD 1: RHESTR WIRIO CYNLLUNIO AR GYFER IECHYD A LLES

| | | | |
|---|---|---|---|
| fel y gellir eu haddasu mewn modd fforddiadwy i ddiwallu anghenion preswylwyr yn y dyfodol? | | | |
| A fydd cynllun y safle yn osgoi newidiadau serth i lefelau tir, neu'n sicrhau bod newidiadau i lefelau'r tir yn raddol? | | | |
| A oes cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus eisoes yn bodoli neu rai newydd megis safleoedd bws o fewn pellter cerdded o 400m? | | | |
| A yw llwybrau cerdded ac ati wedi'u cynllunio i roi mynediad cyfleus a diogel sy'n rhydd o rwystrau diangen? | | | |
| A yw dyluniad a chynllun y cynnig yn ymgorffori egwyddorion dylunio arfer gorau i gynorthwyo pobl sy'n byw gyda dementia? | | | |
| **Thema: Diogelwch Cymunedol [CCA Adran 14]** | | | |
| **Canlyniad** | **Ie** | **Na** | **Esboniwch y mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig** |
| **Meini Prawf** | | | |
| A yw dyluniad a chynllun y cynnig yn cynnwys mesurau i leihau troseddu ac ofn troseddu mewn ymgynghoriad ag Ymgynghorydd Atal Troseddu drwy Gynllun yr Heddlu Lleol? | | | |
| **Thema: Mannau Agored [CCA Adran 8]** | | | |
| **Canlyniad** | **Ie** | **Na** | **Esboniwch y mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig** |
| **Meini Prawf** | | | |
| A fydd y cynnig yn darparu mannau agored newydd, neu'n gwella'r ddarpariaeth bresennol ac yn gwella mynediad at fannau sy'n bodoli eisoes? | | | |
| A fydd y ddarpariaeth mannau agored yn cynnig amrywiaeth o fannau chwarae i blant a phobl ifanc ac yn cynnwys mannau tawel? | | | |

# ATODIAD 1: RHESTR WIRIO CYNLLUNIO AR GYFER IECHYD A LLES

| | | | |
|---|---|---|---|
| A fydd y mannau agored newydd neu'r rhai presennol o fewn pellteroedd cerdded yn unol â'r hyn a argymhellir gan safonau Meysydd Chwarae Cymru? | | | |
| **Thema: Dewisiadau Bwyd Iach [CCA Adran 11 a 12]** | | | |
| **Canlyniad** | **Ie** | **Na** | **Esboniwch y mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig** |
| **Meini Prawf** | | | |
| A fydd y cynnig yn darparu cyfleoedd ar gyfer tyfu bwyd, er enghraifft drwy ddarparu rhandiroedd, gerddi preifat a chymunedol a thoeau gwyrdd? | | | |
| A fydd y cynnig yn cefnogi darparu a/neu gadw siopau bwyd lleol i ddarparu dewisiadau bwyd iachach? | | | |
| **Thema: Cyfleusterau Cymunedol [CCA Adran 13]** | | | |
| **Canlyniad** | **Ie** | **Na** | **Esboniwch y mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig** |
| **Meini Prawf** | | | |
| A fydd y cynnig yn golygu colli cyfleuster cymunedol sy'n bodoli eisoes? | | | |
| A oes modd cyrraedd y cyfleusterau cymunedol yn hawdd drwy gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus? | | | |
| A fydd y datblygiad yn darparu cyfleusterau cymunedol newydd neu well, gan gynnwys cyfleoedd i gydleoli gwasanaethau a gwell mynediad at gyfleusterau cymunedol presennol? | | | |
| A yw'r effaith ar wasanaethau gofal iechyd ac anghenion addysg wedi cael ei hystyried a'i datrys? | | | |
| **Thema: Hyrwyddo Teithio Llesol a Chynaliadwy [CCA Adran 7]** | | | |
| **Canlyniad** | **Ie** | **Na** | **Esboniwch y mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig** |

# ATODIAD 1: RHESTR WIRIO CYNLLUNIO AR GYFER IECHYD A LLES

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Meini Prawf** | | | |
| A fydd y cynnig yn hyrwyddo teithio llesol a chynaliadwy yn unol ag egwyddorion yr hierarchaeth drafnidiaeth? | | | |
| A fydd y cynnig yn gwella cysylltedd a hygyrchedd i'r rhwydwaith cerdded a beicio presennol, ac i wasanaethau bws a thrên presennol? | | | |
| A yw'r datblygiad yn cael ei gefnogi gan gynllun teithio cynhwysfawr sy'n hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy a mesurau teithio llesol, targedau ar gyfer newid moddol a manylion strategaeth ar gyfer monitro hyn? | | | |
| **Thema: Ansawdd Aer [CCA Adran 15]** | | | |
| **Canlyniad** | **Ie** | **Na** | **Esboniwch y mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig** |
| **Meini Prawf** | | | |
| A yw dyluniad a chynllun adeiladau a thirlunio yn ceisio lleihau'r amlygiad i lygredd aer? | | | |
| A fydd y cynnig yn cynnwys mesurau i leihau allyriadau o drafnidiaeth ac adeiladau? E.e. mannau gwefru cerbydau trydan, cynlluniau clybiau ceir neu rannu ceir? | | | |
| **Thema: Sŵn [CCA Adran 15]** | | | |
| **Canlyniad** | **Ie** | **Na** | **Esboniwch y mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig** |
| **Meini Prawf** | | | |
| A fydd y cynnig yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru effeithiau sŵn a achosir gan, er enghraifft, draffig a masnach drwy ddyluniad adeiladau, cynllun y safle a thirlunio? | | | |
| Casgliadau o'r Rhestr Wirio ac Argymhellion ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig | | | |
| | | | |